# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Ebrill 2024
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Owain Roberts**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6388
SeneddCyllid@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat / Cofrestru

(09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 11)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 22 Chwefror, 29 Chwefror, 6 Mawrth, a 13 Mawrth.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar yr ail gyllideb atodol 2023-24 - 18 Mawrth 2024**

(Tudalennau 12 - 13)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 19 Mawrth 2024**

(Tudalennau 14 - 15)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Rhagor o wybodaeth am argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25 - 19 Mawrth 2024**

(Tudalennau 16 - 32)

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Ymateb i argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 20 Mawrth 2024**

(Tudalennau 33 - 35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad – 19 Mawrth 2024

(Tudalennau 36 – 37)

2.6 PTN 6 – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) – 19 Mawrth 2024

(Tudalen 38)

2.7 PTN 7 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) – 8 Ebrill 2024

(Tudalennau 39 – 40)

2.8 PTN 8 – Llythyr ar y cyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid: Deddfau Trethi Cymru etc. (Deddf Pŵer i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf hon) – 19 Mawrth 2024

(Tudalen 41)

2.9 PTN 9 – Llythyr oddi wrth Philip Rycroft: Gwybodaeth ychwanegol am Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol – 11 Ebrill 2024

(Tudalennau 42 – 44)

2.10 PTN 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – 11 Ebrill 2024

(Tudalennau 45 – 49)

2.11 PTN 11 – Ymateb gan yr Aelod sy'n Gyfrifol i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – 15 Ebrill 2024

(Tudalennau 50 – 58)

## 3 Cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 2

(09.30-10.30) (Tudalennau 59 – 70)

Gareth Davies, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Lee Summerfield, Cyfarwyddwr Ymchwiliadau, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

**Dogfennau ategol:**

Investigation into devolved funding (2019) – Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Saesneg yn unig)

Briff Ymchwil y Senedd

## Egwyl

(10.30-10.45)

## 4 Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Sesiwn dystiolaeth

(10.45-11.15) (Tudalennau 71 - 98)

Jane Hutt AS, Y Prif Chwip a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru

Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio'r Senedd

**Dogfennau ategol:**

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), fel y'i cyflwynwyd**

**Memorandwm Esboniadol**

FIN(6)-09-24 P1 - Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio - 15 Mawrth 2024

FIN(6)-09-24 P2 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio at Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd - 22 Mawrth 2024

FIN(6)-09-24 P3 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio at y Llywydd - 22 Mawrth 2024

FIN(6)-09-24 P4 - Llythyr gan y Llywydd - 16 Ebrill 2024

FIN(6)-09-24 P5 - Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio - 15 Ebrill 2024

Briff Ymchwil y Senedd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.15)

## 6 Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): Trafod y dystiolaeth

(11.15-11.25)

## 7 Cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol: Trafod y dystiolaeth

(11.25-11.30)

## 8 Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

(11.30-12.00) (Tudalennau 99 - 114)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-09-24 P6 - Papur blaen

FIN(6)-09-24 P7 - Llythyr at y Prif Weinidog

FIN(6)-09-24 P8 - Llythyr at Archwilydd Cyffredinol Cymru

FIN(6)-09-24 P9 - Llythyr at Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

FIN(6)-09-24 P10 - Nodyn Gwasanaethau Cyfreithiol

## 9 Cynnig i gyfarwyddo'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

(12.00-12.15) (Tudalennau 115 - 120)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-09-24 P11 - Papur blaen

FIN(6)-09-24 P12 - Llythyr oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - 15 Ebrill 2024

## 10 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26: Dull gweithredu o ran ymgysylltu

(12.15-12.30) (Tudalennau 121 - 126)

**Dogfennau ategol:**

FIN(6)-09-24 P13 - Dull gweithredu o ran ymgysylltu

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**

**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Mawrth 2024

Amser: 09.30 - 10.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13733

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Philip Rycroft, Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyllid - 1 Mawrth 2024

### 2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 4 Mawrth 2024

### 2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol - Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 5 Mawrth 2024

### 2.4 PTN 4 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 - 6 Mawrth 2024

## 3 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar ei ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol gan Philip Rycroft, Aelod o'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Philip Rycroft gyda rhai cwestiynau ychwanegol ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol.

## 6 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Oblygiadau Ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), a chytunwyd arno gyda mân newidiadau.

## 7 Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (Cymru)

7.1 Trafododd y Pwyllgor Oblygiadau Ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (Cymru).

## 8 Trafod y Flaenraglen Waith

8.1 Trafododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith

## 9 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26: Y dull gweithredu o ran ymgysylltu

9.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y dull gweithredu o ran ymgysylltu ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd**

**a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024

Amser: 09.30 - 10.33

# Hybrid, Priefat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS |
| Tystion: | Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau, Comisiwn y Senedd<br>Nicholas Morgan, Comisiwn y Senedd<br>Andrew Gibson, Avison Young |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Yn ei gyfarfod ar 29 Chwefror 2024, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.**

Cofrestru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 Bae Caerdydd 2032 - Briffio Technegol Comisiwn y Senedd

2.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar Fae Caerdydd 2032 gan Gomisiwn y Senedd.

## 3 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y gwaith Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2023-24 a chytunwyd arno gyda mân newidiadau.

## 4 Goblygiadau ariannol y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Oblygiadau Ariannol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru), a chytunwyd arno gyda mân newidiadau.

## 5 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

5.1 Trafododd y Pwyllgor nodyn y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn perthynas â Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 a chytunwyd ar beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Chwefror 2024

Amser: 09.30 - 10.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13701

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet (Gweinidog Cymru)<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 21 Chwefror 2024**

**2.2 PTN 2 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) – 23 Chwefror 2024**

**2.3 PTN 3 – Llythyr gan Sam Rowlands AS: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) – 19 Chwefror 2024**

**2.4 PTN 4 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 26 Chwefror 2024**

## 3 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2023-24 Llywodraeth Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllideb a Busnes y Llywodraeth a Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaeth Ariannol wrth Graffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- Nodyn ar y meysydd o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n tanwario ar hyn o bryd.
- Nodyn ar lefel y cymhorthdal fesul teithiwr mewn perthynas â threnau yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 6 Mawrth

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Chwefror 2024

Amser: 09.35 - 11.03

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14004

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Sam Rowlands AS<br>Dr Dave Harvey, Swyddfa Sam Rowlands AS<br>Michael Dauncey, Y Gwasanaeth Ymchwil<br>Christian Tipples, Y Gwasanaeth Ymchwil |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwybodaeth ychwanegol am gyllidebau cyfun - 6 Chwefror 2024

### 2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr - 7 Chwefror 2024

### 2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 16 Chwefror 2024

## 3 Goblygiadau Ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Oblygiadau Ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) gan Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n gyfrifol; Dr Dave Harvey, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd; Christian Tipples, Gwasanaeth Ymchwil y Senedd; a Michael Dauncey, Gwasanaeth Ymchwil y Senedd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Goblygiadau Ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid: Y wybodaeth ddiweddaraf

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Mawrth 2024

Annwyl Peredur

Yn ystod y gwaith craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2023-24 yn y Pwyllgor Cyllid ar 29 Chwefror, cytunais i ddilyn i fyny gyda rhagor o wybodaeth am ychydig o bwyntiau a godwyd yn ystod y trafodaethau.

**Y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Fel y nodir yn ein hail Gyllideb Atodol a'r datganiad blaenorol ar ailflaenoriaethu a'r atodiad ategol i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gwnaethom nifer o ddewisiadau anodd eleni i leihau gwariant ar draws y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ailgyfeirio at gefnogi gwasanaethau rheng flaen.

Yn ogystal â'r dewisiadau hynny, mae'r gyllideb yn dangos mwy o incwm o drosglwyddiadau sy'n gysylltiedig â thanwariant ar gronfa Pedair Gwlad Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU.

**Costau cymhorthdal i bob teithiwr ar drenau yng Nghymru**

Bydd gwerth y cymhorthdal i bob teithiwr yng Nghymru yn amrywio yn ôl llinell neu lwybr, gweithredwr y gwasanaeth ac a yw cyllid ar gyfer seilwaith yn cael ei gymryd i ystyriaeth neu beidio. Rydym yn parhau i weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i wneud arbedion ac i leihau'r bwlch rhwng ei hincwm a'i chostau, gan sicrhau hefyd fod gwasanaethau rheilffyrdd yn dal yn fforddiadwy i deithwyr.

Rydym wedi buddsoddi llawer mwy o arian yn y rheilffyrdd nag o dan y system flaenorol. Manteision y dull hwn yw'r buddsoddiad o £800m mewn trenau newydd sbon ar draws ardal Cymru a'r Gororau, y trawsnewidiad gwerth £1bn i Linellau Craidd y Cymoedd a gwasanaethau ychwanegol megis y gwasanaethau Glyn Ebwy i Gasnewydd a lansiwyd yn ddiweddar.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom y penderfyniad i ddiogelu gwasanaethau rheilffyrdd hanfodol drwy ddarparu £125m i Drafnidiaeth Cymru yn y gyllideb atodol. Heb y cyllid hwn ni fyddai Trafnidiaeth Cymru wedi gallu parhau i weithredu eu holl wasanaethau rheilffyrdd a byddai swyddi wedi bod mewn perygl.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Mawrth 2024

Annwyl Peredur

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod rhithwir eithriadol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 14 Mawrth, hoffwn rannu â chi ychydig o'r hyn a drafodwyd. Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan hefyd: [Datganiadau y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - GOV.UK (www.gov.uk)]

Yn bresennol gyda mi yn y cyfarfod roedd y Gwir Anrh Laura Trott MBE AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a Dr Caoimhe Archibald ACD, Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon.

Yn ystod ein trafodaethau ar Gyllideb y DU, amlygais y goblygiadau i Gymru, gan dynnu sylw yn arbennig at fy mhryderon ynghylch y diffyg cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Pwysleisiais yr angen am sicrwydd cynnar o unrhyw gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn 2024-25, yn arbennig mewn perthynas â chyflogau'r sector cyhoeddus. Gwnaethom hefyd drafod pwysigrwydd sicrhau eglurder ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cynnal adolygiad o wariant er mwyn helpu i flaengynllunio ein cyllideb.

Yn yr un modd â chyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor, ailadroddais yr achos dros hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol, gan dynnu sylw at ein profiad o broses ddiweddaraf Amcangyfrifon Atodol y DU. Gwnes i sicrhau ymrwymiad i swyddogion ddatblygu cynigion ar gyfer gwella prosesau cyllido yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ystyried prosesau cyfnewid cyfalaf yn adnoddau, i'w trafod yn ystod cyfarfod pellach o'r Pwyllgor.

Yn olaf, nodais y byddai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro i'w weinyddu'n uniongyrchol. Ailadroddais fod ein safbwynt yn parhau, hynny yw, yn unol â'n setliad datganoli, dylid dychwelyd cyllid ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i Lywodraeth Cymru i'w weithredu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(6)-09-24 PTN 3

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Mawrth 2024

Annwyl Peredur

Ysgrifennaf atoch i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a ganlyn fel rhan o'r gwaith dilynol ar adroddiad y Pwyllgor, 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25'. Cytunwyd y dylid rhoi'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

- **Argymhelliad 3** – Adroddiad ar effaith bosibl unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 ar flwyddyn ariannol 2024-25 (Atodiad 1).

- **Argymhelliad 7** – Rhagor o wybodaeth am brosiect Bae Caerdydd 2032. Cynhaliwyd sesiwn briffio technegol ar 6 Mawrth ar gyfer aelodau'r Pwyllgor.

- **Argymhelliad 8** – Rhestr o brosiectau i'w hariannu drwy'r Gronfa Prosiect yn 2024-25 (Atodiad 2).

- **Argymhelliad 11** – Adroddiad yn manylu ar y Cynlluniau Ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod (Atodiad 3).

- **Argymhelliad 6** – Bydd gwybodaeth am yr arolwg staff, gan gynnwys gwybodaeth am lesiant staff, yn cael ei darparu unwaith y bydd yr arolwg sydd ar agor ar hyn o bryd wedi'i gwblhau a'r adroddiad arno wedi'i gyhoeddi. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd y wybodaeth hon ar gael i'r Pwyllgor yn dilyn cyfarfod y Comisiwn ym mis Mehefin.

Mae'r Comisiwn yn cadarnhau y bydd yr ymatebion i'r argymhellion sy'n weddill yn cael eu darparu yn unol â'r llythyr dyddiedig 9 Tachwedd 2023 a anfonwyd at y Pwyllgor.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Mae'r Comisiwn yn parhau'n ymrwymedig i fod yn agored ac yn dryloyw wrth ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os hoffech imi egluro unrhyw elfen o'r wybodaeth a ddarparwyd, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir



Ken Skates AS
Copi at Manon Antoniazzi

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

ATODIAD 1

# Adroddiad ar effaith bosibl unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 ar flwyddyn ariannol 2024-25

## Diben yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am yr effaith y bydd unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 yn parhau i'w chael ar wasanaethau a phrosiectau arfaethedig yn 2024-25, fel y nodir yn Argymhelliad 3 o'r adroddiad, 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25'. Mae'r argymhelliad wedi'i nodi isod.

*"**Argymhelliad 3** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y bydd unrhyw arbedion a wneir yn 2023-24 yn parhau i'w chael ar ei wasanaethau ac unrhyw brosiectau arfaethedig ar gyfer 2024-25, erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24."*

## Y cefndir

Yn 2023-24, cynigiodd y Comisiwn arbedion o £435,000 yn y Cais am y Gyllideb Atodol gyntaf, a oedd yn rhan o'r gyllideb a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2023. Ym mis Medi 2023, mewn ymateb i gais gan Ochr yr Undebau Llafur o ran cymorth costau byw, gwnaeth y Comisiwn arbedion ychwanegol gwerth cyfanswm o £794,000 i'w alluogi i fforddio gwneud taliad i'r holl staff cymwys ar radd 6 ac is.

Cyfanswm yr arbedion yr oedd yn rhaid eu sicrhau yn 2023-24 oedd £1.229 miliwn yn ystod y flwyddyn. Gwnaed yr arbedion hyn ar draws amrywiaeth o linellau yn y gyllideb, gan gynnwys oedi'r broses recriwtio a defnyddio dyddiadau cychwyn targed wrth recriwtio i swyddi gwag.

### Cais am y Gyllideb Atodol gyntaf

Drwy'r cais am y gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin 2023, cafodd £435,000 ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Gwnaed yr arbedion perthnasol yn y tri maes a nodir isod.

- Costau rheoli cyfleusterau a chyfleustodau o £208,000;
- Costau TGCh o £107,000; a
- Gostyngiad cyffredinol o £120,000 yn y Gronfa Prosiect

### Arbedion Costau Byw

Ym mis Medi 2023, aeth y Comisiwn ati i nodi rhaglen o arbedion cyllidebol cychwynnol i ariannu'r cais am gymorth o ran costau byw. Cost amcangyfrifedig y cymorth hwn oedd £824,000. Ariannwyd hyn trwy gyfuniad o ostyngiadau mewn gwariant dewisol nad yw'n

gysylltiedig â staff ynghyd â rhaglen o reoli recriwtio a oedd yn cynnwys oedi'r broses recriwtio ar gyfer rhai rolau a rheoli recriwtio ar gyfer rolau eraill drwy gyflwyno dyddiadau cychwyn targed.

Cost derfynol y taliad oedd £794,000 a chafodd y cyllid ar ei gyfer ei sicrhau fel a ganlyn:

- Arbedion yn gysylltiedig â staff drwy reoli recriwtio - £588,000
- Arbedion nad oeddent yn gysylltiedig â staff - £206,000.

Nodir cyfanswm yr arbedion yn 2023-24, wedi'u rhannu'n gostau sy'n gysylltiedig â staff a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â staff, yn nhabl 1 isod.

Tabl 1

| **Categori Arbedion** | **£** |
|---|---|
| Yn gysylltiedig â staff | 588,000 |
| Heb fod yn gysylltiedig â staff | 641,000 |
| **Cyfanswm** | **1,229,000** |

## Yr Effaith Barhaus yn 2024-25

Yn gyffredinol, effaith barhaus yr arbedion a wnaed yn 2023-24 yw £491,500 yn 2024-25, sy'n cynnwys £200,000 o arbedion sy'n gysylltiedig â staff a £291,000 o arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â staff. Mae'r tabl isod yn cynnwys crynodeb o effaith barhaus yr arbedion yn 2024-25.

| | Cyllideb atodol gyntaf<br><br>£ | Costau byw<br><br>Staff<br><br>£ | Costau byw<br><br>Heb fod yn gysylltiedig â staff<br><br>£ | Cyfanswm<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Lleihad parhaol parhaus, gan reoli camau i liniaru'r effaith | - | 200,000 | 37,250 | **237,250** |
| Lleihad parhaol parhaus, heb unrhyw effaith | 232,000 | | 15,250 | **247,250** |
| Arbedion untro yn ystod y flwyddyn sydd heb barhau | 203,000 | 388,000 | 146,500 | **737,000** |
| Arbedion a nodwyd y byddant yn parhau drwy gynllunio gwasanaethau | | | 7,000 | **7,000** |
| **Cyfanswm** | **435,000** | **588,000** | **206,000** | **1,229,000** |

Yr arbedion cyllidebol nad ydynt yn gysylltiedig â staff a fydd yn parhau yn 2024-25 yw £59,500 ar draws ystod o linellau yn y gyllideb. O'r 30 o linellau yn y gyllideb yr effeithiwyd arnynt yn wreiddiol yn ystod 2023-24, mae 14 wedi dychwelyd i lefel wreiddiol y gyllideb ar gyfer 2024-25; mae 12 llinell arall yn y gyllideb wedi parhau ar lefel is yn seiliedig ar ddadansoddiad o wariant hanesyddol a newidiadau hirdymor yn y sylfaen costau o ganlyniad i weithio mewn ffordd hybrid; mae 2 linell yn y gyllideb yn llai o ganlyniad i ailnegodi contractau; tra bod y 2 linell yn y gyllideb sy'n weddill yn llai oherwydd newidiadau gweithredol a nodwyd drwy'r broses o gynllunio gwasanaethau ar gyfer 2024-25.

Mae nifer o resymau dros barhau â'r cynlluniau arbed:

- Mae'r gwaith o gynllunio gwasanaethau ar gyfer 2024-25 wedi helpu i lywio gofyniad cyllidebol llai.
- Roedd dadansoddiad hanesyddol o ddata am wariant yn dangos gofyniad cyllidebol llai.
- Mae gweithio hybrid wedi arwain at newid hirdymor i rai costau cyllidebol.
- Mae ailnegodi contractau wedi sicrhau gostyngiadau parhaol mewn costau.
- Mae newid ffyrdd o weithio oherwydd yr angen i wneud arbedion wedi arwain at fanteision cadarnhaol sy'n cael eu dwyn ymlaen.
- Roedd yn rhaid parhau i wneud yr arbedion targed ar gyfer 2024-25 mewn ffordd a oedd yn cael yr effaith leiaf bosibl ar wasanaethau.

## Gwneud arbedion parhaol mewn ffordd sy’n rheoli’r effaith ar wasanaethau neu gapasiti

Bydd cyfanswm o £237,250 o arbedion cyllidebol yn 2023-24 yn parhau i mewn i 2024-25, sy’n golygu y bydd yn rhaid rheoli’r arbedion hyn; caiff arbedion gwerth £200,000 eu sicrhau drwy gyflwyno dyddiadau recriwtio targed, yn ogystal ag arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â staff gwerth £37,250.

Fel rhan o’r cyfanswm hwn, mae'r cyllidebau sy’n destun arbedion parhaus yn 2024-25 ac y gallent gael effaith ar Aelodau wedi'u nodi isod:

- Hyfforddiant i Aelodau
- Cyhoeddiadau ac ymchwil
- Lluniaeth ar gyfer y pwyllgorau
- Cynghorwyr a thystion arbenigol.

Mae gwariant ar hyfforddiant i Aelodau wedi parhau i gael ei leihau yn 2024-25 ond gyda gostyngiad llai nag yn 2023-24 ar ôl cwblhau’r gwaith o gynllunio’r ddarpariaeth yn 2024-25 a dadansoddiad o wariant hanesyddol, sydd wedi helpu i lywio gostyngiad cyffredinol o £30,000 y flwyddyn nesaf (cyllideb flynyddol o £115,000 yn weddill). Dangosodd y dadansoddiadau y dylai’r gostyngiad hwn gael effaith gyfyngedig, ac mae’r Comisiynwyr wedi cytuno ar set o egwyddorion i lywio’r gwaith o ddydd i ddydd o flaenoriaethu darpariaeth o ran dysgu a datblygu i Aelodau a’u staff fel sail i’r rhaglen hyfforddi sydd wedi’i llunio a’r ystyriaeth a roddir i bob cais dysgu a datblygu sy’n dod i law. Mae tanwariant parhaus o’r swm hwn wedi bod ar y gyllideb flaenorol bob blwyddyn yn ystod cyfnod estynedig y dadansoddiad (7 mlynedd). Mae hyn, yn ogystal â’r ffaith ei bod hi’n bosibl sicrhau gwell gwerth am arian drwy ddarpariaeth hybrid a dilyn yr egwyddorion uchod, yn galluogi i’r gostyngiad barhau. Y gostyngiad yn 2023-24 oedd £55,000.

Bydd y gostyngiad o £5,000 yng nghyllideb y Llyfrgell hefyd yn parhau (cyllideb flynyddol o £112,000 yn weddill). Y gostyngiad yn 2023-24 oedd £10,000. Fel yn achos hyfforddiant i Aelodau, mae dadansoddiad o wariant hanesyddol wedi llywio’r gostyngiad. Caiff y gyllideb ei rheoli'n fanwl drwy barhau i leihau faint o ddeunyddiau printiedig newydd sy’n cael eu prynu a blaenoriaethu rhai adnoddau dros adnoddau eraill. Mae'n anodd rhagweld galw Aelodau am ddeunyddiau printiedig ac adnoddau digidol, a chaiff pob cais am y deunyddiau hyn ei asesu'n ofalus.

Mae lluniaeth ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgorau hefyd yn parhau i wynebu gostyngiad o £2,250 yn y gyllideb ar gyfer 2024-25. Eto, mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad o wariant hanesyddol yn y maes hwn sy'n dangos nad oes angen cynnal y gyllideb ar y lefel bresennol.

Mae cyfarfodydd hybrid, sy'n galluogi arbenigwyr a thystion i gymryd rhan o bell, hefyd wedi arwain at lai o wariant yn y maes hwn.

Bydd y gyllideb ar gyfer tystion a chynghorwyr arbenigol hefyd yn destun gostyngiad o £5,000 yn 2024/5 yn seiliedig ar wariant hanesyddol. Y prif reswm am yr arbedion hyn yw bod mwy o arbenigwyr a thystion yn gallu cymryd rhan o bell, gan eu galluogi i ddefnyddio eu hamser yn fwy effeithlon, sydd hefyd yn gostwng ein gwariant ar deithio a chynhaliaeth.

Caiff y cyllidebau hyn eu harwain gan alw, ac mae'r materion perthnasol eto wedi'u hystyried fel rhan o'r gwaith dadansoddi a arweiniodd at osod cyllideb briodol ar gyfer 2024-25 sydd â chapasiti digonol iddi.

Mae arbedion posibl sy'n gysylltiedig â staff o £200,000 wedi'u nodi ar gyfer 2024-25 fel rhan o'r adolygiad o effaith sefydlu proses o reoli recriwtio drwy gyflwyno dyddiadau cychwyn targed. Cafodd y broses hon ei chyflwyno ym mis Medi 2023. Nododd y rheolwyr recriwtio a'r tîm recriwtio ehangach eu bod yn gallu rheoli'r llwyth gwaith yn well erbyn hyn. Roedd manteision eraill a ddeilliodd o'r angen i wneud arbedion o ran costau staff yn cynnwys proses recriwtio well a'r gallu i baratoi ar gyfer cyfnod cynefino cyflogeion newydd.

Mae dadansoddiad o'r amser a gymerwyd i recriwtio ar gyfer swyddi allanol a swyddi mewnol yn ystod cyfnod o ddwy flynedd wedi dangos mai hyd cyfartalog y broses recriwtio yw saith mis a deg wythnos, yn y drefn honno. Wrth fodelu targedau recriwtio cyfartalog o chwe mis a thri mis, yn y drefn honno, nodwyd y bydd modd sicrhau arbedion ychwanegol o ganlyniad i'r camau i reoli recriwtio, yn ogystal â buddion cadarnhaol eraill. O ganlyniad, mae'r broses o recriwtio yn ôl targed yn cael ei dwyn ymlaen i 2024-25 fel rhan o'r broses o gynllunio'r gweithlu.

## Arbedion parhaol yn y gyllideb heb unrhyw effaith ar wasanaethau neu gapasiti

Bydd cyfanswm o £247,250 o arbedion yn parhau i mewn i 2024-25 a fydd yn sicrhau arbedion i'r gyllideb heb effeithio ar wasanaethau neu gapasiti. Isod, nodir rhai o'r cyllidebau allweddol sy'n cyfrannu at yr arbedion hyn, sydd wedi'u cyflawni'n bennaf naill ai drwy ailnegodi contractau neu drwy newidiadau i ffyrdd o weithio.

Mae arbedion contract TGCh o £107,000 a gyflawnwyd yn 2023-24 o ganlyniad i ailnegodi llwyddiannus a gwell rheolaeth ar gontractau hefyd yn cael eu dwyn ymlaen, gan arwain at ostyngiad tymor hwy yn y sylfaen costau TGCh. Mae'r arbedion wedi'u nodi isod ac nid ydynt yn effeithio ar wasanaethau neu gapasiti'r sefydliad.

- Gostyngiad yn y gyllideb yn dilyn tendr am wasanaethau darlledu: £22,000
- Gostyngiad mewn trwyddedu meddalwedd drwy reolaeth gadarn ar gontractau a defnydd effeithlon o drwyddedau: £35,000
- Defnydd effeithlon o'r Cwmwl a chamau i reoli seilwaith: £35,000
- Ailnegodi contractau trwydded Microsoft yn llwyddiannus: £15,000

Mae arbedion rheoli cyfleusterau ac ystadau o £208,000 ar y trywydd cywir tuag at gael eu cyflawni yn ystod 2023-24 drwy gyfuniad o'r camau gweithredu a ganlyn:

- Dim cynnydd mewn cyfraddau yn 2023-24 (£29,000)
- Arbedion ar y defnydd o drydan a nwy (£127,700)
- Postio a chludo (£15,000)
- Tanwydd ar gyfer boeler sglodion pren (£5,000)
- Llungopïo drwy leihau costau contract a lleihau defnydd (£45,000)
- Defnyddio llai o ddŵr (£10,000)

Defnyddiwyd rhai o'r arbedion hyn i dalu am cynnydd yng nghostau cyfleusterau'r ystad. Bydd tua £125,000 o'r arbedion hyn yn parhau yn 2024-25, megis costau postio, tanwydd ar gyfer y generadur, llungopïo, defnyddio llai o ddŵr, ac, i raddau llai, arbedion o ran cost nwy a thrydan. Mae tua £83,000 yn arbedion untro na fyddant yn cael eu hailadrodd yn 2024-25.

## Arbedion a nodwyd y byddant yn parhau drwy gynllunio gwasanaethau ar gyfer 2024-25

Drwy gynllunio gwasanaethau, nodwyd cyfanswm o £7,000 o arbedion yn 2023-24 a fydd yn parhau yn 2024-25 oherwydd newidiadau gweithredol ar gyfer y flwyddyn, gan leihau costau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Arbedion cyllidebol untro heb eu dwyn ymlaen i 2024-25

Cyfanswm yr arbedion untro yn 2023-24 na fyddant yn cael eu dwyn ymlaen i 2024-25 yw £737,500, sy'n cynnwys arbedion o £388,000 sy'n gysylltiedig â staff ac arbedion o £349,500 nad ydynt yn gysylltiedig â staff ar draws 14 o linellau yn y gyllideb, gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol gan Aelodau, Digwyddiadau, ac Ymgysylltu ac Allgymorth.  Mae'r holl linellau hyn wedi dychwelyd i'r lefel flaenorol yn y gyllideb.

Cafodd y gostyngiad o £120,000 yn y Gronfa Prosiect ar ddechrau'r flwyddyn ariannol effaith ar faint o gyllid oedd ar gael i'w ddyrannu i brosiectau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Canlyniad hyn yw bod prosiectau megis y polion fflagiau, ailosod teledu cylch cyfyng, gwaith

cynnal a chadw a phrosiectau cynaliadwyedd wedi’u gohirio neu eu lleihau. Dylid nodi bod y Bwrdd Gweithredol eisoes wedi penderfynu dyrannu unrhyw gyllid sy’n weddill i brosiectau cynnal a chadw yn chwarter 4 blwyddyn ariannol 2023-24 ac i ddiogelu’r gyllideb Cronfa Prosiect o £1.5 miliwn yn 2024-25 yn ei chyfanrwydd rhag unrhyw ostyngiadau, gan adlewyrchu nifer y prosiectau allweddol yn mae’n rhaid eu cyflawni yn y flwyddyn nesaf.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig hefyd i glustnodi arian at waith cynnal a chadw yn 2024-25 i sicrhau bod yr ystad yn parhau i gael ei chynnal i'r safonau angenrheidiol.

ATODIAD 2

# Amserlen Cronfa Prosiect Comisiwn y Senedd 2024-25

Mae'r tabl isod yn nodi portffolio prosiectau'r Comisiwn ar gyfer 2024-25.

Er mwyn rheoli'r risg o danwario, mae'r Portffolio wedi'i or-raglennu, h.y. ni ddisgwylir i bob prosiect yn y tabl isod gael eu cyflawni yn 2024-25. Mae gor-raglennu yn ein galluogi i reoli portffolio o brosiectau ar wahanol gamau datblygu a chyflawni. Gall prosiectau a gymeradwywyd ymlaen llaw gymryd lle prosiectau a allai orfod gael eu hoedi neu eu stopio yn ystod y flwyddyn a/neu amsugno tanwariant prosiect arall oherwydd darpariaeth effeithlon.

Mae'r holl brosiectau wedi cael eu blaenoriaethu a'u sgorio gan y Grŵp Rheoli Portffolio a argymhellodd y Portffolio i'r Bwrdd Gweithredol i'w gymeradwyo. Mae sgorio yn seiliedig ar flaenoriaethau, sydd wedi cael ei osod gan y Bwrdd Gweithredol yn 2024-25 fel cyflawni gwaith cynnal a chadw a disodli cylch bywyd digidol ac ystadau, ynghyd â gwella profiad yr Aelodau a darparu gwasanaethau.

Mae'r Grŵp Rheoli Portffolio hefyd yn rheoli'r Portffolio yn ystod y flwyddyn, gan wneud argymhellion pellach i'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod y portffolio'n cyflawni'r gwerth gorau posibl am arian ac yn darparu'r buddion gorau posibl, a bod prosiectau sylweddol yn derbyn cymaint o hyder o ran adnoddau â phosibl.

Y gost a ragwelir ar gyfer y Portffolio Prosiectau yw tua £1.8m. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd £1.3m o adnoddau ar gael i ddechrau i'w fuddsoddi gyda £200,000 arall yn cael ei ryddhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

| Prosiect | Statws | Math o brosiect |
|---|---|---|
| Prosiect Bae 2032 | Yn mynd rhagddo | Rhaglen Ffyrdd o Weithio |
| Prosiect y Siambr 2026 | Yn mynd rhagddo | Yn ymwneud â Diwygio'r Senedd |
| Prosiect Tŷ Hywel 25 | Yn mynd rhagddo | Yn ymwneud â Diwygio'r Senedd |
| Camau 2 a 3 disodli a chynnal a chadw cylch bywyd teledu cylch cyfyng | I'w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |

| | | |
|---|---|---|
| Archwiliad allanol o hygyrchedd gwefan y Senedd | I’w ddechrau | Cydymffurfio |
| Prosiect archifo’r Senedd | Yn mynd rhagddo | Cydymffurfio |
| Cwblhau cam 1 prosiect adnewyddu system y Gyflogres a Phensiynau | Yn mynd rhagddo | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Adnewyddu System Reoli'r Llyfrgell | Yn mynd rhagddo | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Prosiect cwmpasu cyrchu mewnol gwasanaethau'r Comisiwn | Yn mynd rhagddo | Rhaglen Ffyrdd o Weithio |
| Adnewyddu system rheoli dogfennau busnes y Senedd | Yn mynd rhagddo | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Seilwaith TGCh - Perimedr a Wal Dân Cwmwl | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Seilwaith TGCh - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Defnyddwyr | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Cam 1 Rhaglen Buddsoddi Darlledu'r Comisiwn | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Seilwaith TGCh - System wrth gefn | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Astudiaeth Ddichonoldeb Uned Trin Aer ac Oerwr newydd ar gyfer Tŷ Hywel | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Ystadau: Cam 2 Astudiaeth Ddichonoldeb System Reoli’r Adeilad yn y Senedd | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Y Comisiwn yn cyflwyno rhaglen cit gweithfan a TGCh 24 i 25 | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Seilwaith TGCh - llwyfan Rheoli Rhwydwaith Di-wifr | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Atgyweiriadau yn y Pierhead | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Uwchraddio’r rhwystrau yn y maes parcio (Braich Rhwystr) - Darnau Hanfodol | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| System hawliadau Aelodau | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| LED newydd – Cam 6 | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Prosiect datblygu deallusrwydd artiffisial (Microsoft Co-Pilot) - Cam 1 | I’w ddechrau | Gwella a Newid |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor proffesiynol TGCh arbenigol a gwasanaeth diogelwch bl 2 | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| Prosiect System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| Offeryn Ymgysylltu Ar-lein i Ddinasyddion ar gyfer pwyllgorau'r Comisiwn | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| Cynllun peilot gwasanaeth cwnsela ar safle’r Senedd | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| Larwm Llais Adeilad Senedd Cymru a System Sain Tŷ Hywel | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Trwsio Gliniaduron TGCh (ar ôl i'r warant ddod i ben) | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Seilwaith TGCh - MS Windows Autopilot | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| System glyweledol newydd ar gyfer Neuadd y Pierhead | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |
| Prosiect datblygu deallusrwydd artiffisial (Microsoft Co-Pilot) - Cam 1 | I’w ddechrau | Gwella a Newid |
| Cynnal a chadw ffonau symudol yr Aelodau | I’w ddechrau | Cynnal a Chadw Cylch Bywyd |

Senedd Cymru
**Gwasanaethau Ymgysylltu**

# Rhaglen Ymgysylltu 2024-25

Chwefror 2024

## Diben a chrynodeb

Diben y papur hwn yw nodi'r Rhaglen Ymgysylltu allanol ar gyfer 2024-25 yn unol ag amcanion y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd.

## Y cefndir

Yn dilyn ailstrwythuro yn 2022-23, ail-bwrpaswyd Gwasanaethau Ymgysylltu i gyflawni ei amcanion o dan y tri philer ymgysylltu:

- Profiad Ymwelwyr a Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Digwyddiadau
- Rhaglenni ymgysylltu

Mae ein strategaeth yn ceisio meithrin ymddiriedaeth gyda'n cynulleidfa ac ailddatgan y Senedd fel calon democratiaeth yng Nghymru.

Rydym am i'r cyhoedd fod yn fwy gwybodus am rôl y Senedd, a'i lle yn nemocratiaeth Cymru. Rydym am iddynt wybod ble i ddod o hyd i wybodaeth a – lle bo'n berthnasol – sut i gymryd rhan.

Mae ein strategaeth yn gosod rhoi profiadau bywyd pobl wrth ei gwraidd. Ei nod yw meithrin gwell dealltwriaeth o waith y Senedd a'i effaith ar fywydau pobl, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl o bob cefndir gymryd rhan yn ei gwaith a meithrin mwy o ymddiriedaeth yn y Senedd, fel senedd sy'n gynhwysol a hygyrch i bawb.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gymryd y camau canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rôl y mae'r Senedd yn ei chwarae
- Gwella dealltwriaeth o waith y Senedd
- Cynyddu cyfranogiad a chynnwys pobl yn ein gwaith

Yn 2023, cyflawnodd timau o fewn Gwasanaethau Ymgysylltu y canlyniadau canlynol:

Profiad Ymwelwyr a Gwasanaethau Cwsmeriaid

- Croesawyd dros 150,000 o ymwelwyr i'r Senedd a'r Pierhead, a chynhaliwyd 535 o deithiau tywys, gyda chyfuniad o deithiau ar leoliad ac ar-lein. Aeth 12,800 o gyfranogwyr ar y teithiau hynny.
- Yn ôl mwy na 75% o'r rheini gwnaethom ymgysylltu â nhw, roedd lefel eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth wedi cynyddu yn dilyn y weithgaredd. Doedd oddeutu 70% ohonynt erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.
- Fe wnaethom ddelio â chyfanswm o 14,000 o ymholiadau, rhwng galwadau ffôn a negeseuon e-bost.

Digwyddiadau

*Neilltuo lleoliadau, digwyddiadau a noddir gan Aelodau a digwyddiadau mawr*

- Atebwyd 14,413 o ymholiadau gennym. Roedd hyn yn cynnwys 8,272 ymholiad ynghylch neilltuo ystafelloedd a 5,098 ymholiad ynghylch neilltuo digwyddiadau.
- Fe wnaethom neilltuo tua. 2,580 o ystafelloedd ar yr ystad a chynnal 214 o ddigwyddiadau a noddir gan Aelodau.
- Aeth 764 o bobl, at ei gilydd, i un o 10 digwyddiad dan arweiniad y Senedd wedi'u cynnal ar yr ystad.
- Fe fuom yn sgwrsio â 6159 o bobl yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Rhaglenni Ymgysylltu (y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a'r timau Addysg, a Senedd Ieuenctid Cymru)

*Ymgysylltu â dinasyddion*

- Fe wnaethom ymgysylltu â 3,140 o bobl a chefnogi 46 o ymchwiliadau pwyllgor.
- Fe wnaethom hwyluso cyfanswm o 232 o grwpiau ffocws, cyfweliadau, grwpiau cynghori, a holiaduron, ac ailddefnyddio data ymgysylltu fel modd o osgoi syrffed ar ymgynghori (h.y. argyfwng costau byw).

*Addysg a Senedd Ieuenctid Cymru*

- Fe wnaeth dros 23,000 o bobl ifanc gymryd rhan mewn 577 o'n sesiynau addysg, ac fe wnaeth 98% o bobl ifanc sôn fod hyd a lled eu dealltwriaeth wedi cynyddu ar ôl cymryd rhan mewn sesiwn addysg.
- Fe wnaethom ddelio â 760 o ymholiadau allanol o ran cyfranogiad aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn 2023, gan gynnwys cymryd rhan mewn nifer o gyfweliadau a digwyddiadau ar y cyfryngau. At hynny, fe wnaethom gefnogi'r broses o gwblhau dau o ymgynghoriadau'r Senedd Ieuenctid, lansio adroddiadau a thrafodaethau Gweinidogol, yn ogystal â hwyluso sesiwn breswyl olaf y Senedd Ieuenctid yn yr ail dymor.

## Gweithgarwch ymgysylltu a phrosiectau

Ar draws y tri philer ymgysylltu, mae'r canlynol ymhlith ein gweithgareddau rheolaidd 'busnes fel arfer':

- Croesawu ymwelwyr i'n hystâd a darparu gwasanaeth cwsmeriaid (ymholiadau cyswllt cyntaf wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar e-bost).
- Teithiau tywys (ar leoliad ac ar-lein).
- Arddangosfeydd (a noddir gan aelodau ac o dan arweiniad y Senedd).
- Cyflenwi'r siop chael nwyddau er mwyn creu incwm.
- Digwyddiadau a noddir gan Aelodau.
- Neilltuo ystafelloedd ar yr ystad.
- Digwyddiadau a chynyrchiadau mawr.
- Casglu profiadau byw ar gyfer ymchwiliadau amrywiol gan bwyllgorau.
- Ymweliadau ag ysgolion, ac ysgolion yn ymweld â ni.
- Rhedeg Senedd Ieuenctid Cymru.

Yn ogystal â gweithgarwch ymgysylltu busnes fel arfer, rydym yn gweithio ar nifer o brosiectau mewnol:

- Parhau i gyflawni yn erbyn y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd – adolygiad hanner ffordd wedi'i gwblhau.
- System Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid, cyflwyno cynllun peilot 12 mis yn seiliedig ar y 'prawf cysyniad' presennol – tra'n aros am gymeradwyaeth ariannol.
- Offer newydd at ddibenion ymgysylltu ar-lein – tra'n aros am gymeradwyaeth ariannol.
- Cyflwyno argymhellion cymeradwy o'r Adolygiad o'r Ystad.
- Cwblhau'r adolygiad o Gymhorthdal Teithio i'r Ysgol.
- Adolygu ymgysylltiad ysgolion (ymagwedd at ymweliadau, ac adnoddau).
- Gwelliannau parhaus i ddulliau casglu a gwerthuso data.
- Datblygu a chyflwyno strategaeth partneriaeth, gan weithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu.

At hynny, rydym yn ymwneud â gwaith ar draws dwy o raglenni mawr y Senedd:

- Diwygio'r Senedd (gan gynnwys paratoadau ar gyfer trosglwyddo i'r Seithfed Senedd, ac ymgyrch etholiadol y Senedd).
- Ffyrdd o Weithio.

## Y Rhaglen Ymgysylltu ar gyfer 2024-25

Yn ogystal â'r uchod, mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'n rhaglen ymgysylltu ar gyfer 2024-25.

Nid yw hon yn amserlen derfynol o weithgarwch a gall newid yn dibynnu ar flaenoriaethau cystadleuol, ac anghenion cyllidebol. At hynny, mae rhywfaint o'n gweithgarwch yn dibynnu ar y Comisiwn yn cytuno ar y dull o nodi diwrnodau arwyddocaol.

| Mis | Gweithgarwch ymgysylltu |
|---|---|
| **Ebrill** | Arddangosfa Senedd Ieuenctid Cymru – noddir gan y Llywydd<br>Yr Oriel, Chwefror – Mai |
| | Tapestri Peredur – noddir gan Paul Davies AS<br>Cornel Curadu (Y Neuadd), Mawrth – Mai |
| | *What a Scenery* – noddir gan Heledd Fychan AS a Darren Millar AS<br>Oriel y Dyfodol, y Pierhead, Ebrill – Mai |
| **Mai** | Eisteddfod yr Urdd – lansio ymgyrch etholiad Senedd Ieuenctid Cymru (Eich Llais – Rhaglen Sioe Haf Ymgysylltu Cymunedol) |
| | Lansio ymgyrch 25 mlynedd:<br>• Sgriptiau teithiau tywys wedi'u diweddaru<br>• Cynnyrch newydd yn cael eu lansio yn y siop<br>• Arddangosfa 1: 25 Mlynedd o Ddatganoli – Mewn partneriaeth ag archif Wleidyddol y Llyfrgell Genedlaethol, y Neuadd<br>• Digwyddiad Panel y Llywydd – Senedd @ 25 – digwyddiad a gynhelir mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru |
| | Y Llywydd yn lansio 'Marchnadoedd' (un o ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ystad) |
| **Mehefin** | Diwygio'r Senedd – Darlith y Llywydd |
| | Arddangosfa Tir a Môr gyda Mike Perry (Mehefin – Medi – Yr Oriel ac Oriel y Dyfodol, y Pierhead) |
| | Gallu cadw lle mewn Sesiynau Addysg ar leoliad gyfer y flwyddyn ysgol nesaf |
| **Gorffennaf** | Sioe Frenhinol Cymru (Eich Llais – Rhaglen Sioe Haf Ymgysylltu Cymunedol) |
| **Awst** | Yr Eisteddfod Genedlaethol (Eich Llais – Rhaglen Sioe Haf Ymgysylltu Cymunedol) |
| **Medi** | Arddangosfa 2: 'Eich Llais' – Arddangosfa astudiaeth achos, yr Oriel (yn rhedeg tan fis Tachwedd – rhan o ymgyrch 25 mlynedd) |
| | Arddangosfa o bortreadau Owain Glyndwr, noddir gan Russell George AS, y Gornel Guradu yn y Senedd (y Neuadd) |
| | Arddangosfa *Witnessing Wales*, noddir gan Paul Davies AS, Oriel y Dyfodol, y Pierhead, Medi – Hydref |

| Mis | Gweithgarwch ymgysylltu |
|---|---|
| **Hydref** | Mis Hanes Pobl Dduon (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Tachwedd** | Etholiad Senedd Ieuenctid Cymru |
| | Dydd y Cofio (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Rhagfyr** | Cyhoeddi Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru |
| | Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anabledd (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| | Y Nadolig (digwyddiad carolau – manylion i'w cadarnhau) |
| **Ionawr** | Diwrnod Cofio'r Holocost (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Chwefror** | Sesiwn Breswyl Senedd Ieuenctid Cymru, a detholiad o faterion blaenoriaeth |
| | Mis Hanes LGBT (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Mawrth** | Dydd Gŵyl Dewi (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| | Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (gweithgaredd i'w gadarnhau) |

Senedd Cymru
**Gwasanaethau Ymgysylltu**

# Rhaglen Ymgysylltu 2024-25

Chwefror 2024

## Diben a chrynodeb

Diben y papur hwn yw nodi'r Rhaglen Ymgysylltu allanol ar gyfer 2024-25 yn unol ag amcanion y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd.

## Y cefndir

Yn dilyn ailstrwythuro yn 2022-23, ail-bwrpaswyd Gwasanaethau Ymgysylltu i gyflawni ei amcanion o dan y tri philer ymgysylltu:

- Profiad Ymwelwyr a Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Digwyddiadau
- Rhaglenni ymgysylltu

Mae ein strategaeth yn ceisio meithrin ymddiriedaeth gyda'n cynulleidfa ac ailddatgan y Senedd fel calon democratiaeth yng Nghymru.

Rydym am i'r cyhoedd fod yn fwy gwybodus am rôl y Senedd, a'i lle yn nemocratiaeth Cymru. Rydym am iddynt wybod ble i ddod o hyd i wybodaeth a – lle bo'n berthnasol – sut i gymryd rhan.

Mae ein strategaeth yn gosod rhoi profiadau bywyd pobl wrth ei gwraidd. Ei nod yw meithrin gwell dealltwriaeth o waith y Senedd a'i effaith ar fywydau pobl, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl o bob cefndir gymryd rhan yn ei gwaith a meithrin mwy o ymddiriedaeth yn y Senedd, fel senedd sy'n gynhwysol a hygyrch i bawb.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gymryd y camau canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r rôl y mae'r Senedd yn ei chwarae
- Gwella dealltwriaeth o waith y Senedd
- Cynyddu cyfranogiad a chynnwys pobl yn ein gwaith

Yn 2023, cyflawnodd timau o fewn Gwasanaethau Ymgysylltu y canlyniadau canlynol:

Profiad Ymwelwyr a Gwasanaethau Cwsmeriaid

- Croesawyd dros 150,000 o ymwelwyr i'r Senedd a'r Pierhead, a chynhaliwyd 535 o deithiau tywys, gyda chyfuniad o deithiau ar leoliad ac ar-lein. Aeth 12,800 o gyfranogwyr ar y teithiau hynny.
- Yn ôl mwy na 75% o'r rheini gwnaethom ymgysylltu â nhw, roedd lefel eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth wedi cynyddu yn dilyn y weithgaredd. Doedd oddeutu 70% ohonynt erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.
- Fe wnaethom ddelio â chyfanswm o 14,000 o ymholiadau, rhwng galwadau ffôn a negeseuon e-bost.

Digwyddiadau

*Neilltuo lleoliadau, digwyddiadau a noddir gan Aelodau a digwyddiadau mawr*

- Atebwyd 14,413 o ymholiadau gennym. Roedd hyn yn cynnwys 8,272 ymholiad ynghylch neilltuo ystafelloedd a 5,098 ymholiad ynghylch neilltuo digwyddiadau.
- Fe wnaethom neilltuo tua. 2,580 o ystafelloedd ar yr ystad a chynnal 214 o ddigwyddiadau a noddir gan Aelodau.
- Aeth 764 o bobl, at ei gilydd, i un o 10 digwyddiad dan arweiniad y Senedd wedi'u cynnal ar yr ystad.
- Fe fuom yn sgwrsio â 6159 o bobl yn Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Rhaglenni Ymgysylltu (y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a'r timau Addysg, a Senedd Ieuenctid Cymru)

*Ymgysylltu â dinasyddion*

- Fe wnaethom ymgysylltu â 3,140 o bobl a chefnogi 46 o ymchwiliadau pwyllgor.
- Fe wnaethom hwyluso cyfanswm o 232 o grwpiau ffocws, cyfweliadau, grwpiau cynghori, a holiaduron, ac ailddefnyddio data ymgysylltu fel modd o osgoi syrffed ar ymgynghori (h.y. argyfwng costau byw).

*Addysg a Senedd Ieuenctid Cymru*

- Fe wnaeth dros 23,000 o bobl ifanc gymryd rhan mewn 577 o'n sesiynau addysg, ac fe wnaeth 98% o bobl ifanc sôn fod hyd a lled eu dealltwriaeth wedi cynyddu ar ôl cymryd rhan mewn sesiwn addysg.
- Fe wnaethom ddelio â 760 o ymholiadau allanol o ran cyfranogiad aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn 2023, gan gynnwys cymryd rhan mewn nifer o gyfweliadau a digwyddiadau ar y cyfryngau. At hynny, fe wnaethom gefnogi'r broses o gwblhau dau o ymgynghoriadau'r Senedd Ieuenctid, lansio adroddiadau a thrafodaethau Gweinidogol, yn ogystal â hwyluso sesiwn breswyl olaf y Senedd Ieuenctid yn yr ail dymor.

## Gweithgarwch ymgysylltu a phrosiectau

Ar draws y tri philer ymgysylltu, mae'r canlynol ymhlith ein gweithgareddau rheolaidd 'busnes fel arfer':

- Croesawu ymwelwyr i'n hystâd a darparu gwasanaeth cwsmeriaid (ymholiadau cyswllt cyntaf wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar e-bost).
- Teithiau tywys (ar leoliad ac ar-lein).
- Arddangosfeydd (a noddir gan aelodau ac o dan arweiniad y Senedd).
- Cyflenwi'r siop chael nwyddau er mwyn creu incwm.
- Digwyddiadau a noddir gan Aelodau.
- Neilltuo ystafelloedd ar yr ystad.
- Digwyddiadau a chynyrchiadau mawr.
- Casglu profiadau byw ar gyfer ymchwiliadau amrywiol gan bwyllgorau.
- Ymweliadau ag ysgolion, ac ysgolion yn ymweld â ni.
- Rhedeg Senedd Ieuenctid Cymru.

Yn ogystal â gweithgarwch ymgysylltu busnes fel arfer, rydym yn gweithio ar nifer o brosiectau mewnol:

- Parhau i gyflawni yn erbyn y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd – adolygiad hanner ffordd wedi'i gwblhau.
- System Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid, cyflwyno cynllun peilot 12 mis yn seiliedig ar y 'prawf cysyniad' presennol – tra'n aros am gymeradwyaeth ariannol.
- Offer newydd at ddibenion ymgysylltu ar-lein – tra'n aros am gymeradwyaeth ariannol.
- Cyflwyno argymhellion cymeradwy o'r Adolygiad o'r Ystad.
- Cwblhau'r adolygiad o Gymhorthdal Teithio i'r Ysgol.
- Adolygu ymgysylltiad ysgolion (ymagwedd at ymweliadau, ac adnoddau).
- Gwelliannau parhaus i ddulliau casglu a gwerthuso data.
- Datblygu a chyflwyno strategaeth partneriaeth, gan weithio gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu.

At hynny, rydym yn ymwneud â gwaith ar draws dwy o raglenni mawr y Senedd:

- Diwygio'r Senedd (gan gynnwys paratoadau ar gyfer trosglwyddo i'r Seithfed Senedd, ac ymgyrch etholiadol y Senedd).
- Ffyrdd o Weithio.

## Y Rhaglen Ymgysylltu ar gyfer 2024-25

Yn ogystal â'r uchod, mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o'n rhaglen ymgysylltu ar gyfer 2024-25.

Nid yw hon yn amserlen derfynol o weithgarwch a gall newid yn dibynnu ar flaenoriaethau cystadleuol, ac anghenion cyllidebol. At hynny, mae rhywfaint o'n gweithgarwch yn dibynnu ar y Comisiwn yn cytuno ar y dull o nodi diwrnodau arwyddocaol.

| Mis | Gweithgarwch ymgysylltu |
|---|---|
| **Ebrill** | Arddangosfa Senedd Ieuenctid Cymru – noddir gan y Llywydd<br>Yr Oriel, Chwefror – Mai |
| | Tapestri Peredur – noddir gan Paul Davies AS<br>Cornel Curadu (Y Neuadd), Mawrth – Mai |
| | *What a Scenery* – noddir gan Heledd Fychan AS a Darren Millar AS<br>Oriel y Dyfodol, y Pierhead, Ebrill – Mai |
| **Mai** | Eisteddfod yr Urdd – lansio ymgyrch etholiad Senedd Ieuenctid Cymru (Eich Llais – Rhaglen Sioe Haf Ymgysylltu Cymunedol) |
| | Lansio ymgyrch 25 mlynedd:<br>• Sgriptiau teithiau tywys wedi'u diweddaru<br>• Cynnyrch newydd yn cael eu lansio yn y siop<br>• Arddangosfa 1: 25 Mlynedd o Ddatganoli – Mewn partneriaeth ag archif Wleidyddol y Llyfrgell Genedlaethol, y Neuadd<br>• Digwyddiad Panel y Llywydd – Senedd @ 25 – digwyddiad a gynhelir mewn partneriaeth â Chanolfan Llywodraethiant Cymru |
| | Y Llywydd yn lansio 'Marchnadoedd' (un o ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ystad) |
| **Mehefin** | Diwygio'r Senedd – Darlith y Llywydd |
| | Arddangosfa Tir a Môr gyda Mike Perry (Mehefin – Medi – Yr Oriel ac Oriel y Dyfodol, y Pierhead) |
| | Gallu cadw lle mewn Sesiynau Addysg ar leoliad gyfer y flwyddyn ysgol nesaf |
| **Gorffennaf** | Sioe Frenhinol Cymru (Eich Llais – Rhaglen Sioe Haf Ymgysylltu Cymunedol) |
| **Awst** | Yr Eisteddfod Genedlaethol (Eich Llais – Rhaglen Sioe Haf Ymgysylltu Cymunedol) |
| **Medi** | Arddangosfa 2: 'Eich Llais' – Arddangosfa astudiaeth achos, yr Oriel (yn rhedeg tan fis Tachwedd – rhan o ymgyrch 25 mlynedd) |
| | Arddangosfa o bortreadau Owain Glyndwr, noddir gan Russell George AS, y Gornel Guradu yn y Senedd (y Neuadd) |
| | Arddangosfa *Witnessing Wales*, noddir gan Paul Davies AS, Oriel y Dyfodol, y Pierhead, Medi – Hydref |

| Mis | Gweithgarwch ymgysylltu |
|---|---|
| **Hydref** | Mis Hanes Pobl Dduon (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Tachwedd** | Etholiad Senedd Ieuenctid Cymru |
| | Dydd y Cofio (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Rhagfyr** | Cyhoeddi Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru |
| | Diwrnod Rhyngwladol Pobl ag Anabledd (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| | Y Nadolig (digwyddiad carolau – manylion i'w cadarnhau) |
| **Ionawr** | Diwrnod Cofio'r Holocost (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Chwefror** | Sesiwn Breswyl Senedd Ieuenctid Cymru, a detholiad o faterion blaenoriaeth |
| | Mis Hanes LGBT (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| **Mawrth** | Dydd Gŵyl Dewi (gweithgaredd i'w gadarnhau) |
| | Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (gweithgaredd i'w gadarnhau) |

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Mawrth 2024

Annwyl Peredur,

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r trydydd, y seithfed, a'r unfed argymhelliad ar ddeg a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad *Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)*.

Mae'r ymatebion i bob argymhelliad ynghlwm fel atodiad.

Yn gywir,

Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

## Ymateb Comisiwn y Senedd i Argymhelliad 3, Argymhelliad 7 ac Argymhelliad 11

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:**

Gallaf gadarnhau bod Comisiwn y Senedd yn bwriadu parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys:

- asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; ac
- asesiad o'r defnydd o ynni.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:**

Bydd Comisiwn y Senedd yn cynnal adolygiad o gyfluniad a ffurf presennol swyddfeydd yr Aelodau mewn ymgynghoriad â'r Aelodau a'u staff i ddatblygu'r gofynion a'r opsiynau a ffefrir i greu'r swyddfeydd ychwanegol y bydd eu hangen ar gyfer yr Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd, os cytunir ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Mae cyfluniad presennol y swyddfeydd yn cynnwys swyddfeydd unigol ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth yn ogystal â darparu un man swyddfa sy'n cynnwys gofod cynllun agored a rennir ar gyfer staff cymorth a swyddfeydd unigol llai i Aelodau o'r Senedd.

Bydd y Comisiwn yn asesu amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys defnydd o ynni, effeithlonrwydd o ran y gofod, ac anghenion defnyddwyr y gweithleoedd i ddatblygu'r opsiwn a ffefrir. Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar nifer o dybiaethau cynllunio ar gyfer y prosiect hwn sy'n cynnwys y dylai'r dyluniadau fod yn gyson â chynlluniau swyddfeydd Tŷ Hywel ar hyn o bryd, er mwyn cynnal cysondeb a sicrhau gwerth gorau ar gyfer y pwrs cyhoeddus. Mae Comisiwn y Senedd hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau Ystadau a Chyfleusterau Llywodraeth Cymru i

sicrhau bod ein priod feysydd gwaith yn cael eu cynllunio a'u cydlynu'n effeithiol ar gyfer y prosiect hwn.

| |
|---|
| **Argymhelliad 11:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil. |

**Ymateb Comisiwn y Senedd:**

Mae Comisiwn y Senedd wedi cytuno na fydd unrhyw waith addasu ffisegol i ystad y Senedd a Thŷ Hywel mewn ymateb i Ddiwygio'r Senedd yn cael ei wneud cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

19 Mawrth 2024

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Gosodwyd ein hadroddiad 14 Mawrth yn cwmpasu Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad (y Memorandwm) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil (Memorandwm Rhif 2).

Yn y Memorandwm, ar oblygiadau ariannol rydych yn nodi:

> *79. Mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth sylweddol mewn perthynas â'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig, a fydd yn effeithio ar ei bwerau a'i lwyth achosion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno.*
>
> *80. Mae Llywodraeth y DU wedi paratoi Asesiad Effaith ar gyfer y Bil sy'n cwmpasu goblygiadau ehangach y Bil yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys yr effeithiau ar Gymru. Rwyf ar ddeall y caiff hwn ei gyhoeddi cyn hir.*

Ym Memorandwm Rhif 2, rydych yn ailadrodd paragraff 79 o'r Memorandwm ym mharagraff 55 ac, ym mharagraff 56, rydych yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a nodir ym mharagraff 80 o'r Memorandwm drwy ddarparu linc i asesiad effaith Llywodraeth y DU, sy'n ymdrin â'r effeithiau ar Gymru.

Gwnaethoch osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil (Memorandwm Rhif 3) ar 4 Mawrth 2024. Ym Memorandwm Rhif 3, ym mharagraff 56, rydych yn ailadrodd bod "gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno."



Senedd Cymru
Welsh Parliament

A fyddech cystal â rhoi gwybod inni:

i. pryd yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich asesiad o effaith bosibl y Bil ar y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig, gan gynnwys y goblygiadau ariannol;

ii. pwy a asesodd effeithiau'r Bil ar Gymru er mwyn darparu gwybodaeth i'w chynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU ac (os yw'n berthnasol) a ymgynghorwyd â chi;

iii. sut mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn wahanol i'r gwaith a wneir ar wybodaeth i'w chynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU;

iv. pam na chynhaliwyd asesiad Llywodraeth Cymru mewn pryd i gael ei gynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU, fel nad yw ar gael ar hyn o bryd i graffu arno yn y ddeddfwrfa lle bydd y Bil yn cael ei ystyried ac yn destun gwelliant.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 17 Ebrill 2024.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

19 Mawrth 2024

Annwyl John a Peredur

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Fel y gwyddoch, rhoddodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, dystiolaeth i'm Pwyllgor ar 11 Mawrth 2024 mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Yn ystod y sesiwn, rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth sy'n ymwneud â materion sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'ch priod Bwyllgorau, ac felly rwy'n tynnu eich sylw at y sesiwn hon.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.cymru

8 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)**

Diolch am eich llythyr ar 7 Mawrth, yn dilyn gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Rhentwyr, a goblygiadau ariannol posibl.

Mae unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 neu Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) 2019 a gynigir yn y Bil Diwygio Rhentwyr yn weinyddol ac maent yn angenrheidiol i ganiatáu i'r darpariaethau gorfodi yng Nghymru fod yn gymwys mewn amgylchiadau o'r fath lle canfyddir bod landlord neu asiant yn gwahaniaethu ar y sail a nodir yn y Ddeddf Diwygio Rhentwyr.

Ystyriwyd costau ariannol gorfodi fel rhan o gyflwyno'r gweithredoedd gwreiddiol hynny, ac o ganlyniad rydym o'r farn nad yw'r gwelliannau y bwriedir eu gwneud yn awr i ddeddfwriaeth y Senedd yn golygu bod angen asesiad llawn o'r goblygiadau terfynol.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**–**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Cyllid**
**–**
**Pwyllgor Cyllid**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

19 Mawrth 2024

Annwyl Rebecca

Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022: Adran 6 (Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon)

Diolch am eich llythyr ar 6 Mawrth 2024, a gafodd ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth, a'r Pwyllgor Cyllid ar 13 Mawrth.

Rydym yn ddiolchgar ichi am gynnig y cyfle inni gael cyflwyniad gan eich swyddogion am adolygiad o weithrediad ac effeithiolrwydd y Ddeddf uchod.

Cyn ystyried y mater ymhellach, byddem yn ddiolchgar o gael manylion am y cylch gorchwyl a'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad, copi o unrhyw ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ac, os nad yw wedi'i chynnwys yn y ddogfen honno (neu nad yw ar gael), unrhyw wybodaeth am opsiynau ar gyfer mecanweithiau deddfwriaethol amgen sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid

Peredur Owen Griffiths MS
Chair, Finance Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

11 April 2024
By email

Dear Chair

**Finance Committee's Inquiry into Intergovernmental Relations**

Thank you for your letter of 19 March, and for taking my evidence before the Committee on 13 March.

Your letter asked me to respond to three additional questions. I do so below.

**Question 1:**
Do you feel the dispute resolution mechanism would be more equitable if it incorporated an independent adjudicator for dealing with fiscal issues including those arising from the fiscal framework?

As the committee is aware, the dispute resolution procedure now in place following the review of intergovernmental relations provides for the possibility of both an independent chairperson for stages of the process and for the provision of third-party advice and mediation. If utilised, these provisions should at least ensure that the facts of a dispute are set out clearly and fairly.

However, the outcome of these processes would not be binding on the participants to the dispute; the agreed procedures are clear that the independent chairperson would have no decision-making role. Incorporating an independent adjudicator would not add much to that mix, unless they were to have the power to impose binding decisions on the parties to the dispute. That is unlikely to be acceptable to the UK government at least, if not also to the devolved governments, as an outsourcing of decision-making which takes it beyond the immediate control of democratically elected governments.

While independent adjudication might be superficially attractive as a means to redress the balance of power between the UK and the devolved governments, in my view it would signify an important constitutional innovation which is unlikely to be politically acceptable.

**Question 2:**
The Commission's final report recommended the Westminster Parliament should legislate for intergovernmental mechanisms to secure a duty of co-operation and parity of esteem between the governments of the UK. How you would envisage this working and how would this ensure parity between all governments?

The Commission made this recommendation but did not develop it in detail. What follows are my views, rather than those of the Commission as a whole.

Part of the problem with the practice of intergovernmental relations since devolution has been ensuring sufficient and sustained attention in Whitehall. Putting intergovernmental mechanisms on a statutory footing would heighten their salience and importance; Whitehall is more likely to pay attention to something that is underpinned by a statutory duty.

To achieve that goal, the form the statute takes does not need to be complex. It could frame a duty of co-operation and an aspiration to parity of esteem, though, in my view, it would be difficult to so define either as to make them justiciable. It could make provision for an independent secretariat with adequate resources. It could establish a broad structure for the various levels of intergovernmental interaction and, critically, impose minimum requirements for frequency of meetings. That could ensure, for example, that the Prime Minister and Heads of Devolved Government Council should meet at a minimum once a year.

This might seem like a modest step forward, but given the recent history of intergovernmental relations, it would represent a big improvement. Statute could ensure that at least the structures were functional.


But structures alone are not enough. By enjoining a duty of cooperation, statute would also serve to remind all governments within the UK that it is in the interests of the people they serve to devote sufficient time and effort to working together to improve the policy outcomes which engage their collective responsibilities.

**Question 3:**
The Commission said a principle should be established that funding changes confirmed after an autumn fiscal event can be managed across financial years. How concerning is the unpredictability in funding for Welsh Government and how effective do you think this principle could be for financial management?

Managing government budgets is complex enough without having to accommodate late changes within year. Without the flexibility to manage the impact of such changes across financial years, there is a real risk of hasty expenditure which does not deliver good value for money. Allowing that flexibility would be straightforward and low risk; it is a simple matter of common sense. It will not of course address concerns about the quantum of funding that the Welsh government receives via the block grant, but it would at least make the job of managing budgets in the interests of the people of Wales somewhat simpler.

I hope these replies are helpful to you.

Yours sincerely



Philip Rycroft

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Diolch i'r Pwyllgor Cyllid am ystyried y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad cyfatebol ar 15 Mawrth 2024.

Gweler isod ymatebion y Llywodraeth i gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad. Rwy'n falch fy mod wedi gallu derbyn yr holl argymhellion.

Rwyf hefyd wedi atodi, er gwybodaeth, gopïau o'r llythyrau yr wyf wedi eu hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Hefyd rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor.

Rwy'n edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Ymatebion i Gasgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

**Casgliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**NODWYD**. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu gofalus cam 1, ac am ddod i'r casgliad eich bod yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil.

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ymrwymo i ddarparu cymaint o dryloywder â phosibl mewn perthynas â chostau'r Bil drwy gyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn a chadarn i gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil hwn.

**DERBYN** Rydym yn cydnabod y bydd angen asesiadau effaith pellach wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth. Bydd y costau a'r manteision a amcangyfrifwyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn y modd arferol.

Yn unol â'r gofynion o dan Reol Sefydlog 27 a'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fewn y Memorandwm Esboniadol wrth wneud rheoliadau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'i Llawlyfr Deddfwriaeth ei hun mewn perthynas â gosod is-ddeddfwriaeth i Filiau.

**DERBYN** Bydd y pwerau a gynigir yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd yn lleihau dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar Filiau Llywodraeth y DU i gyflawni newidiadau i Gymru, ac yn caniatáu i newidiadau gael eu gwneud mewn modd amserol. Felly, mae rhannau o'r Bil yn ymwneud â chreu strwythurau a fydd yn caniatáu i'r Llywodraeth gyflwyno is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, eglurais yr heriau o ran costio is-ddeddfwriaeth lle mae'r cwmpas a'r manylion i'w cadarnhau. Fel y dywedais bryd hynny, bydd unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unol â gofynion y Llawlyfr Deddfwriaeth.

**Argymhelliad 3:** Mewn perthynas â systemau amgen o drethiant lleol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog:

- yn parhau i archwilio pob llwybr ar gyfer newid er mwyn sicrhau bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud ynghylch y system drethiant lleol fwyaf priodol; ac
- yn darparu copi o'r map ffordd ar gyfer treth gwerth tir, ynghyd ag amlinelliad o unrhyw gostau cysylltiedig, i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**DERBYN** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried systemau amgen o drethiant lleol ers 2016, ac mae wedi gwneud ymchwil helaeth. Daeth crynodeb o'r canfyddiadau a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 i'r casgliad nad oedd modd symud i ffwrdd oddi wrth y system drethiant lleol bresennol yn gyfan gwbl yn y tymor byr i'r tymor canolig. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i archwilio opsiynau eraill i'w hystyried ar gyfer y tymor hirach.

O ran treth gwerth tir leol, rydym wedi sicrhau capasiti academaidd ychwanegol yn ddiweddar drwy gynllun cenedlaethol Cymrodoriaeth Cyngor Ymchwil y DU i helpu Llywodraeth Cymru i ymchwilio i nifer o faterion allweddol ymhellach ac i gryfhau ein sail dystiolaeth. Bydd casgliadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer ystyriaeth ychwanegol.

Hefyd, gan ddarparu cywiriad i'r Pwyllgor: mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ymrwymiad i lunio map ffordd erbyn diwedd *tymor y Senedd hon* ac nid *tymor yr haf* fel y nodir ym mharagraff 29 yr adroddiad.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r pwyntiau a godwyd ynghylch anghysondebau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn yr adran hon, gyda'r bwriad o egluro'r wybodaeth a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN** Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ddod â'r rhain i'n sylw. Byddwn yn adolygu hyn er mwyn sicrhau bod y ffigurau'n gyson. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei ddarparu cyn cam 3.

**Argymhelliad 5:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y risgiau a’r goblygiadau cost i Gymru, os bydd yn ymwahanu oddi wrth Loegr, o ran amseriad ei hailbrisiadau ardrethi annomestig, ac i’r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN** Fel y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl meintioli'n llawn y costau a'r risgiau a fyddai'n codi yn sgil ymwahanu. Fodd bynnag, mae'n bosibl darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau sy'n ymwneud ag adnoddau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ynghyd â’r risgiau lefel uchel. Bydd y ffigurau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cam 3.

**Argymhelliad 6:** Mae’r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyfanswm cost y ddyletswydd newydd i dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth gyfredol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn benodol, a yw’r gost o £35 a £20 fesul talwr ardrethi yn ychwanegol at y costau a amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch perthnasol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN** Mae'r ffigurau'n cynrychioli amcangyfrif cyfartalog o gostau ychwanegol cydymffurfio. Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. I rai talwyr ardrethi, ni fydd costau cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd yn golygu costau newydd neu ychwanegol o'u cymharu â'r rhai a delir o dan y system bresennol. Bydd rhagor o wybodaeth ac esboniad yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cam 3.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y costau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â system ar-lein newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Dylai hyn gynnwys pryd y bydd yn cael ei gweithredu a risgiau unrhyw oedi posibl wrth weithredu i dalwyr ardrethi sy'n cydymffurfio â'r gofynion newydd i ddarparu gwybodaeth, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**DERBYN**. Nid yw cwblhau ymarfer ailbrisio yn 2026 yn ddibynnol ar lansio'r system ar-lein, gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes yn paratoi i ymgymryd â'r ymarfer hwnnw o dan y trefniadau presennol. Bwriedir i'r system sicrhau cynaliadwyedd ailbrisiadau amlach dros y tymor hirach. Nid oes unrhyw risg i dalwyr ardrethi sy'n gysylltiedig ag amseriad y lansiad, oherwydd dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon ei bod yn rhesymol disgwyl i dalwyr ardrethi gydymffurfio y bydd y dyletswyddau'n dod i rym. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys, ochr yn ochr â'r amcangyfrif o'r costau a ddarparwyd eisoes, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn cam 3.

**Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar y dull o ddiwygio'r dreth gyngor. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost o unrhyw opsiynau posibl y gellid eu hystyried yn dilyn yr ymgynghoriad Treth Gyngor Decach: cam 2 ac unrhyw oblygiadau i'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**DERBYN**. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor maes o law, yn amlinellu manylion unrhyw benderfyniadau pellach a wneir ac unrhyw oblygiadau ar gyfer y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**Argymhelliad 9:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y gweithgor sy'n gyfrifol am ystyried yr esemptiadau treth gyngor presennol ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud i symleiddio disgowntiau a diystyriadau.

**DERBYN**. Rydym yn parhau i adolygu'r ystod o ostyngiadau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn parhau i fod yn berthnasol i uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru. Mae 53 o gategorïau i'w hadolygu. Hyd yma, rydym wedi cadarnhau y bydd y gostyngiad un oedolyn o 25% yn parhau, a hefyd ein bwriad i gael gwared ar y disgownt eiddo gwag ac eithrio o dan rai amgylchiadau. Ar ôl yr ymgynghoriad diweddar, rydym yn dadansoddi'r ymatebion i gynigion ar gyfer eithriad Dosbarth F ar gyfer eiddo gwag lle nad yw profiant neu lythyron gweinyddu wedi'u rhoi eto, a'r eithriad a'r diystyriad i bobl â nam meddyliol difrifol.

Byddwn yn ymgynghori ar gynigion pellach yn nes ymlaen eleni, a gellid cyflwyno newidiadau fesul cam dros gyfnod o amser, gyda rhai newidiadau'n cael eu gweithredu ym mlwyddyn ariannol 2026-27. Bydd unrhyw reoliadau a ddatblygir gennym yn cael eu hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn nodi costau, manteision a risgiau unrhyw newidiadau arfaethedig i'r drefn bresennol.

**Argymhelliad 10:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y trefniadau trosiannol a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gyfyngu ar effaith ailbrisiadau'r dreth gyngor ar aelwydydd ac awdurdodau lleol.

**DERBYN**. Rydym yn parhau i ystyried manylion y trefniadau trosiannol fel rhan o ddiwygio'r dreth gyngor. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn amlinellu'r manylion unwaith y bydd y

ffordd ymlaen yn dilyn ymgynghoriad cam 2 yn hysbys.  Bydd manylion y trefniadau trosiannol, gan gynnwys costau, manteision, ac effeithiau hefyd yn cael eu hamlinellu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân, sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol sydd ei hangen i roi effaith i'r trefniadau.

**Argymhelliad 11:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu yn asesu costau a manteision cyffredinol y Bil, gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed ac a yw'r rhain yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**DERBYN**.  Mae nifer o brosesau monitro a gwerthuso eisoes ar waith i fesur effeithiau polisi a goblygiadau ariannol deddfwriaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol i sicrhau bod asesiadau parhaus yn digwydd mewn perthynas â sut mae'r ddeddfwriaeth wedi dod i rym a'r effeithiau sy'n deillio o hynny.

Bydd is-ddeddfwriaeth a grëir o dan y Bil yn cael ei chefnogi gan ei Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ei hun, gan amlinellu cynlluniau monitro a gwerthuso, gan gynnwys goblygiadau ariannol sy'n benodol i'r effeithiau perthnasol.

Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(6)-09-24 PTN 11

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for North Wales
-
Aelod Senedd dros Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Peredur Griffiths AS.
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2024. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Nodaf fod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yr wyf hefyd yn croesawu'n fawr, ac yn gwerthfawrogi, Gasgliad 3 y Pwyllgor ynghylch lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost. Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith, gan gynnwys gyda darparwyr addysg awyr agored breswyl, a chredaf yn wir fod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mor gadarn ac mor gyflawn ag y gallwn fod wedi'u gwneud.

Gyda hynny mewn golwg, nid yw wedi bod yn bosibl i mi dderbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor, fel y nodir yn Atodiad A. Hoffwn wneud y pwynt cyffredinol, fodd bynnag, pe bai'r Bil yn symud ymlaen drwy'r broses ddeddfwriaethol, y byddaf yn parhau i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a byddaf, wrth gwrs, yn cyhoeddi copi diwygiedig fel y bo'n briodol.

Yn olaf, roeddwn am ichi wybod y byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn cysylltiad â'u Hadroddiadau Cyfnod 1 hwy, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

Sam Rowlands AS
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad A**

**Ymateb gan Sam Rowlands, AS i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

| |
|---|
| **Casgliad 1** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Os bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am drafod y newidiadau hynny'n fanylach.<br><br>**Casgliad 2** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru yn ei brofi ar hyn o bryd, a hefyd yn nodi'r lefel sylweddol o gyllid sy'n ofynnol ar gyfer y Bil hwn.<br><br>**Casgliad 3** Gwnaeth lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost a gynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol argraff ar y Pwyllgor, ac mae o'r farn bod y dull hwn yn enghraifft dda i Lywodraeth Cymru ac eraill ei dilyn o ran lefel y manylion y dylid eu cynnwys mewn perthynas â chostau deddfwriaeth.<br><br>**Casgliad 4** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cyfnod arfarnu pum mlynedd ar gyfer y Bil hwn yn briodol, a'i fod yn unol â'r amserlenni a gymhwyswyd gan Lywodraeth Cymru wrth asesu effaith y Biliau y mae'n eu cyflwyno. Disgwyliwn i bob Bil gael ei drin – ac i'r gwaith craffu arno fod – ar sail gyfartal, ac i'r un safon. |
| **Ymateb: Nodwyd**<br>Rwy'n hapus bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yr wyf hefyd yn croesawu'n fawr, ac yn gwerthfawrogi, Gasgliad 3 y Pwyllgor ynghylch lefel y manylion a ddarparwyd ar yr amcangyfrifon cost.<br>Wrth ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith, gan gynnwys gyda darparwyr addysg awyr agored breswyl, a chredaf yn wir fod y costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mor gadarn ac mor gyflawn ag y gallwn fod wedi'u gwneud. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Er bod y Pwyllgor yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd i ddileu chwyddiant wrth gostio'r Bil, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal dadansoddiad pellach o'i effaith bosibl, o ystyried lefel gyfredol chwyddiant a chost sylweddol y Bil. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Os cytunir ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, bydd dadansoddiad pellach o effaith chwyddiant yn cael ei wneud a'i gynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith ar y cynnydd posibl yn y galw am arosiadau preswyl mewn canolfannau gweithgareddau awyr agored o ganlyniad i basio'r Bil. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Wrth ddatblygu'r Bil a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith i ganfod beth yw'r lefelau cymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar ddata EVOLVE a gweithio gyda'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) a gynhaliodd arolwg gydag ysgolion. Mae manylion y canfyddiadau wedi'u cynnwys ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol – 'Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael'.<br>Nod y Bil yw gwneud cynnig o addysg awyr agored breswyl yn orfodol o dan y cwricwlwm, ac mae'r costau felly yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd 100 y cant yn manteisio ar y cynnig. Felly, gellir gwneud tybiaeth resymol o ran y cynnydd yn y galw drwy gymharu'r data a sefydlwyd gennym ar y lefel cymryd rhan ar hyn o bryd â'r dybiaeth bod 100 y cant yn cymryd rhan.<br>Yn y dyfodol, gellid dadansoddi ymhellach y cynnydd posibl yn y galw ar ôl i'r Bil gwblhau'r broses ddeddfwriaethol, a chael ei basio. Mae elfennau o'r Bil fel y'i cyflwynwyd a fydd i'w cyflawni gan Weinidogion Cymru, ac a allai gael effaith ar y galw. Bydd hyn oll yn cael ei ystyried wrth i'r Bil barhau ar ei hynt drwy'r broses ddeddfwriaethol.<br>Nodaf mai rhan o bryder y Pwyllgor yw y gallai cynnydd yn y galw arwain o bosibl at gynnydd mewn costau ar gyfer y meysydd hynny. Nid wyf yn rhagweld mai dyma fydd yr achos. Fodd bynnag, pe bai costau'n cynyddu o ganlyniad i'r Bil, byddai'n amhosibl rhagweld beth fyddai'r costau hynny a ble y gallai unrhyw gynnydd ddigwydd. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith i ddadansoddi ac amcangyfrif manteision y Bil, ac i'r wybodaeth honno gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Wrth ddatblygu'r Bil, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gwnaed llawer o waith i ddadansoddi a chasglu manteision posibl addysg awyr agored breswyl. Mae llawer o fanylion am fanteision posibl y Bil wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol drwyddo draw, nid yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn unig.<br>Mae'r wybodaeth am y manteision sydd wedi'i chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol wedi'i llunio yn dilyn trafodaeth faith a manwl gydag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth gyda darparwyr addysg awyr agored ledled y DU ac mewn mannau eraill, yn ogystal â thrwy ddefnyddio tystiolaeth gan arbenigwyr fel y Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored, a'r Sefydliad Dysgu Awyr Agored.<br>Cyfeiriaf y Pwyllgor yn benodol at:<br>• Bennod 3 – paragraff 18; paragraffau 23 i 25; paragraffau 60 i 69; paragraffau 79 i 101.<br>• Yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – paragraffau 212 i 224.<br>Er fy mod yn gwrthod argymhelliad y Pwyllgor, nodaf a chytunaf â barn y Pwyllgor bod y "Pwyllgor yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau yn ogystal â buddion, i'w alluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil". Rwy'n fodlon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a baratowyd gennyf yn cynnwys yr amcangyfrif gorau posibl.<br>Os caiff y Bil ei basio, a'i ddeddfu, byddwn yn llwyr gefnogi unrhyw waith 'ar ôl deddfu' i ddadansoddi a yw'r Bil wedi cael yr effaith a'r manteision a ddisgwylir. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, i gynnwys dadansoddiad a chostau eitemau heblaw offer arbenigol y gallai fod eu hangen ar ddisgyblion pan fyddant yn cael profiad addysg awyr agored preswyl, megis dillad ac esgidiau addas. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Mae hwn yn fater y rhoddais lawer iawn o ystyriaeth iddo wrth ddatblygu'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol, ac ar ôl pwyso a mesur, nid oeddwn yn credu y dylai cost dillad ac esgidiau nad ydynt yn hanfodol fod yn rhan o'r costau ar gyfer y Bil.<br>Fel y gŵyr y Pwyllgor, diben y Bil yw galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i gael profiad o addysg awyr agored breswyl. I gyflawni hynny, bydd gan |

| |
|---|
| Weinidogion Cymru ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir, a hynny yn rhad ac am ddim.<br><br>Rwy’n deall yn llwyr y byddai disgwyl i ddisgyblion sy'n cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl fynd â dillad addas fel cotiau ac esgidiau gyda hwy. Fodd bynnag, gellir ystyried y rhain fel offer nad ydynt yn hanfodol ar gyfer y gweithgareddau penodol y cânt eu cyflawni fel rhan o’r profiad, ac felly nid ydynt yn unigryw at ddibenion y Bil.<br><br>Wrth drefnu ymweliadau preswyl i ffwrdd, mae ysgolion yn rhoi rhestr i ddisgyblion o'r pethau y byddai angen iddynt fynd â hwy gyda hwy. Yn fy nhrafodaethau â darparwyr, yn aml roedd yn wir bod yr hyn yr oedd ysgolion yn ei ddweud wrth ddisgyblion yr oedd 'ei angen' arnynt y tu hwnt i'r hyn yr oedd y canolfannau eu hunain yn gofyn i ddisgyblion ddod â hwy mewn gwirionedd.<br><br>Wrth dalu am unrhyw eitemau o ddillad nad ydynt yn hanfodol, mae her hefyd o ran gwahaniaethu rhwng yr hyn y gallai fod ei angen ar ddisgyblion a'r hyn y gallent fod 'ei eisiau'. Bydd pwysau cymdeithasol yn anochel yn arwain at ofynion penodol gan ddisgyblion. Gall y dillad y mae rhai disgyblion (os nad y rhan fwyaf) yn dewis eu gwisgo fod yn nwyddau brand na fyddent yn cynnig gwerth am arian pe bai’r gost yn cael ei thalu fel rhan o’r Bil.<br><br>Mae hefyd yn dybiaeth resymol y byddai angen yr eitemau dillad hynny nad ydynt yn hanfodol eisoes ar y rhan fwyaf o ddisgyblion at ddibenion y tu hwnt i ofynion y Bil. Fel y cyfryw, nid yw’r gost wedi’i chynnwys gan nad yw’n rhywbeth y gellir ei briodoli’n uniongyrchol i’r Bil. Byddai'n amhosibl gwybod gydag unrhyw sicrwydd beth fyddai angen talu amdano yn hyn o beth. Penderfynwyd felly mai’r costau i’w cynnwys fel rhan o’r Bil ddylai fod y costau hynny y byddai angen i BOB disgybl sy’n cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl eu talu.<br><br>Pan fo eitemau o ddillad nad yw disgyblion yn meddu arnynt efallai, ac eitemau a allai atal plentyn rhag cymryd rhan, gellid defnyddio’r Grant Hanfodion Ysgol i helpu i dalu’r costau hynny. Rwy’n ymwybodol bod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth yn hyn o beth wrth gasglu tystiolaeth. |
| **Argymhelliad 5.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy’n Gyfrifol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y modd y bydd canllawiau ynghylch y Bil yn sicrhau bod gwerth am arian yn ystyriaeth allweddol, pan fydd ysgolion yn gwneud dewisiadau am addysg awyr agored breswyl. |
| **Ymateb: Derbyn**<br><br>Mae sicrhau gwerth am arian yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Yn ei hanfod, cydbwysedd ydyw rhwng yr hyn a gynigir a nodau’r ysgol. Mae angen cael darlun |

clir o’r hyn sy’n ofynnol gan ysgol o ymweliad, a’r hyn y bydd y darparwr yn ei ddarparu.

Y peth pwysicaf wrth asesu gwerth am arian yw a yw nodau'r ymweliad wedi'u bodloni. Gellid cyflawni hyn drwy werthusiad o'r ymweliad gan yr athro neu’r athrawes sy'n ei arwain. Byddai gwerthusiad o'r fath hefyd yn galluogi staff i nodi cryfderau a gwendidau, gwelliannau posibl ac i gynllunio ar gyfer ymweliadau preswyl yn y dyfodol. Gellir defnyddio'r gwerthusiad i ddangos defnydd effeithiol o'r cyllid.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i staff ysgolion sy'n mynd gyda phlant gydnabod beth yn union yw gwerth am arian. Un ffordd o helpu yn hyn o beth yw drwy hyfforddiant ar yr hyn y mae Bathodyn Ansawdd Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth (LOtC) yn ei gynnwys, gan ei fod yn ymgorffori agweddau ar y ddarpariaeth sy'n annog yr amodau sy'n arwain at ganlyniadau llwyddiannus.

Mae’r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag Addysg Awyr Agored Breswyl, a bod yn rhaid i’r canllawiau “wneud darpariaeth mewn cysylltiad â’r costau y byddai’n rhesymol mynd iddynt mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt”. Dylai hyn roi rhywfaint o ddiogelwch bod yn rhaid i gostau ymweliadau fod yn rhesymol. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i edrych a fyddai modd cryfhau’r darpariaethau ynghylch canllawiau yn y Bil i hyrwyddo ymhellach fod angen sicrhau gwerth am arian.

**Argymhelliad 6.** O ystyried anghenion a gofynion amrywiol disgyblion, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy’n Gyfrifol yn darparu dadansoddiad pellach o'r costau amcangyfrifedig ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eisoes yn cynnwys yr hyn a ystyriaf yn amcangyfrif cywir o’r costau ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth i gymryd rhan mewn profiad addysg awyr agored breswyl.

Wrth ddatblygu’r amcangyfrif, rwyf wedi gweithio’n uniongyrchol gydag Ymddiriedolaeth Exmoor Calvert ac Ymddiriedolaeth Bendrigg, sef dau o brif ddarparwyr gwyliau gweithgaredd i bobl ag anableddau ac anghenion arbennig yn y DU.

Roedd y costau a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y canolfannau hynny yn cyfateb i oddeutu dwbl cyfartaledd y gost a ddarparwyd gan y canolfannau a ymatebodd i'r arolwg a anfonwyd i gynorthwyo’r gwaith casglu data sy'n gysylltiedig â'r Bil. Mae'r costau hyn wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

| |
|---|
| **Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn darparu dadansoddiad pellach o gostau athrawon llanw, a chynnwys y wybodaeth honno mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Wrth wrthod yr argymhelliad hwn, rwy'n cydnabod bod heriau'n aml o ran dod o hyd i athrawon cyflenwi addas – fel yr amlinellwyd mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor.<br>Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r costau ar gyfer y Bil yn hyn o beth, rwyf wedi seilio'r amcangyfrif ar y dybiaeth y byddai athrawon cyflenwi ar gael pryd bynnag y bo angen, ac felly dylai hyn ddarparu ar gyfer y costau uchaf sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon ar y Bil.<br>Nodaf fod y Pwyllgor wedi seilio'r argymhelliad ar ei bryderon ynghylch argaeledd athrawon cyflenwi. Ni ddylai argaeledd athrawon cyflenwi, fodd bynnag, newid costau gwirioneddol darparu'r gwasanaeth hwnnw ar sail y dybiaeth a amlinellwyd eisoes. Ni chredaf, felly, fod unrhyw danamcangyfrif, gan fy mod wedi seilio'r amcangyfrif gan gymryd bod y gwasanaeth cyflenwi hwnnw ar gael. |
| **Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnal rhagor o waith ar y goblygiadau o ran costau mewn perthynas â newidiadau posibl i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, o ganlyniad i basio'r Bil. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Ni fyddai'n briodol i mi, fel Aelod unigol o'r Senedd, wneud gwaith i ystyried newidiadau posibl i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.<br>Os bydd angen newid y ddogfen honno o ganlyniad i basio'r Bil, mater i Weinidogion Cymru fyddai gweithio gydag athrawon, ac undebau, i ganfod i ba raddau y mae angen unrhyw newidiadau. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy’n Gyfrifol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig ag olrhain a monitro presenoldeb disgyblion mewn profiad addysg awyr agored breswyl mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. |
| **Ymateb: Gwrthod**<br>Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eisoes yn cynnwys yr amcangyfrif gorau ar gyfer costau olrhain disgyblion – yn seiliedig ar drafodaethau gyda rhanddeiliaid ar y ffordd debygol y gallai’r gwaith olrhain hwnnw weithio’n ymarferol.<br>Nododd y trafodaethau hyn y gellid cynnwys gwaith olrhain ym mhob cofnod disgybl a gofnodir ar y system rheoli gwybodaeth briodol, a goblygiadau hynny fyddai mewnbynnu maes ychwanegol i’r gronfa ddata cofnodion disgyblion.<br>Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd oherwydd byddai angen i’r awdurdodau lleol holi datblygwyr y feddalwedd i gael gwybod beth fyddai’r gost. Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio systemau rheoli gwybodaeth, fodd bynnag, ni chredir y byddai fawr ddim costau trosiannol yn gysylltiedig â chynnwys maes ychwanegol. |
| **Argymhelliad 10.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy’n Gyfrifol yn rhoi eglurhad ar unrhyw ofynion arolygu posibl sy’n gysylltiedig â’r Bil – gan gynnwys unrhyw rôl i Estyn – a rhagor o fanylion am y modd y caiff y Bil ei fonitro’n effeithiol. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio i ariannu cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o addysg, ac rwy’n cydnabod y gellir dadlau bod angen rhyw fath o ddull rheoli ansawdd, ac asesu, i sicrhau ei fod yn cyflawni’r canlyniadau addysgol a ddymunir.<br>Gan mai'r ysgol ei hun fydd yn gosod amcanion yr ymweliad, dylai hefyd ddilyn mai'r ysgol sydd â'r cyfrifoldeb am asesu a yw'r amcanion hyn wedi'u cyflawni.<br>Cadarnhaodd Estyn ei hun mewn tystiolaeth, pe bai’r Bil yn mynd yn ei flaen ac os daw cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn ofyniad statudol, y byddai hynny’n cael ei ystyried pan fydd Estyn yn arolygu addysgu a dysgu ysgol. Fodd bynnag, drwy ei arolygiadau arferol, ni fyddai Estyn yn edrych ar yr ymweliadau gwirioneddol y mae ysgolion yn eu cynnal nac yn llunio barn ar y rhain. Pe dymunid hyn, byddai angen i Lywodraeth Cymru roi’r dasg i Estyn i gynnal adolygiad thematig, y gallai ei wneud fel rhan o’i llythyr cylch gwaith blynyddol. Felly, ni fydd unrhyw rôl ychwanegol i Estyn fel mater o drefn. |

| |
|---|
| Mae'r fframweithiau ansawdd gwirfoddol y gall darparwyr addysg awyr agored gael mynediad atynt ar hyn o bryd yn cynnwys asesiadau o brosesau addysgu a dysgu, yn ogystal ag amrywiaeth o 'gydrannau darpariaeth' eraill, gan gynnwys diogelwch, gweinyddiaeth, ac ati. Mae systemau arolygu statudol ac anstatudol yn bodoli eisoes a chânt eu cynnal ar gost y darparwr. |
| **Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n Gyfrifol yn cynnwys adolygiad ôl-weithredu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ac y dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys gwybodaeth ynghylch y modd y bydd costau a buddion cyffredinol y Bil yn cael eu monitro. |
| **Ymateb: Derbyn**<br>Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 3, os caiff y Bil ei basio, a'i ddeddfu, byddai angen darn sylweddol o waith i ddadansoddi a yw'r Bil yn cael yr effaith, a'r manteision, a ddisgwylir.<br>Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, byddaf yn edrych yn fanwl ar y posibilrwydd o gynnwys adolygiad ôl-weithredu, a allai fod wedi'i osod yn well ar wyneb y Bil yn hytrach nag yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Mawrth 2024

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mawrth 2024.

Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae'r amserlen hon yn cynnwys cyfnod o naw wythnos eistedd ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, sy'n wahanol i'r deuddeg wythnos eistedd arferol. Atodir llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2024 oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Busnes am ragor o wybodaeth am y rhesymau dros gynnig amserlen gyflym.

Yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2024, trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyrau, a thrwy fwyafrif, cytunodd ar amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyriaeth y Senedd o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol). Nid oedd dau o'r Aelodau, a minnau yn eu plith, yn cytuno â'r amserlen gyflym.

Ysgrifennaf i gofnodi fy amheuon, fel Llywydd, ynghylch yr amserlen graffu gyflym ar gyfer y Bil hwn. Rwyf wedi dweud nad yw darpariaethau'r Bil hwn, yn fy marn i, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; mae'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wedi dweud bod y darpariaethau, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd. Dyma'r tro cyntaf i Fil gael ei gyflwyno lle y mae gwahaniaeth barn ynghylch ei gymhwysedd.

Mae craffu ar egwyddorion cyffredinol Bil yng Nghyfnod 1 yn galluogi pwyllgorau i godi cwestiynau am amryw o faterion, gan gynnwys cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'n resyn y bydd llai o amser nag arfer ar gael i'ch Pwyllgor ystyried y mater newydd a chymhleth hwn.

Wrth gytuno ar yr amserlen, nododd y Pwyllgor Busnes, os bydd y Pwyllgor sy’n gyfrifol, yn ystod ei waith craffu, o’r farn ei bod yn angenrheidiol iddo gael mwy o amser i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, yna caiff ofyn am amser ychwanegol.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, oherwydd y bydd eu pwyllgorau hwythau hefyd yn craffu ar y Bil yng Nghyfnod 1.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

seneddbusnes@senedd.cymru

7 Mawrth 2024

Annwyl Elin,

Ymhellach i'r drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 5 Mawrth, rwy'n ysgrifennu i rannu rhagor o wybodaeth am yr amserlen arfaethedig ar gyfer craffu ar y Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Mae cyflwyno'r Bil yn cyflawni argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth yn y maes hwn ac y dylai diwygio'r Senedd gael ei weithredu mewn da bryd ar gyfer yr etholiad yn 2026. Cafodd argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig eu cymeradwyo gan fwyafrif o Aelodau'r Senedd.

Mae'r amserlen a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn sylfaenol ar gyfer cynnal llwybr tuag at weithredu'r mesurau mewn da bryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026. Rydym yn gweithio i sicrhau bod y mesurau ar waith cyn yr etholiad hwnnw gan fod hyn yn rhan o becyn diwygio'r Senedd ynghyd â'r Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Byddai goblygiadau ar gyfer y gwaith gweithredu hwnnw pe bai oedi o fis yn unig hyd yn oed yn hynt y Bil.

Bydd angen amser ar weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol i baratoi ar gyfer gweithredu'r newidiadau, ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei gwneud. Mae Confensiwn Gould yn darparu y dylai pob darn o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiad, gan gynnwys is-ddeddfwriaeth, gael ei wneud o leiaf chwe mis cyn cyhoeddi hysbysiad yr etholiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer rhoi'r newidiadau i gyfraith etholiadol ar waith yn briodol. Wrth fynd ati i gyflawni'r mesurau diwygio etholiadol a gynigir ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lynu at Gonfensiwn Gould.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai’n rhaid i ddarpariaethau’r Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) gael eu gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, y cyfeirir ato'n fwy cyffredin fel "y Gorchymyn Cynnal Etholiadau", yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i'r Senedd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y ddau Fil, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith fel rhan o Orchymyn Cynnal Etholiadau newydd. Hwn fydd y tro cyntaf i'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau gael ei ddiwygio'n llawn ers 2007. Ymhellach, bydd y Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg am y tro cyntaf. Mae hwn yn ymgymeriad mawr ac mae’n galw am gryn dipyn o waith. At hynny, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Mae'r amserlen arfaethedig yn cynnig y cyfle gorau i wneud y ddeddfwriaeth sylfaenol a’r is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer caniatáu i ddarpariaethau'r Bil gael eu gweithredu’n llwyddiannus mewn da bryd ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.

Yn ei lythyr, tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio sylw at y ffaith bod disgwyl i’r Prif Weinidog newydd gael ei enwebu a’i benodi yn fuan wedi i'r Bil gael ei gyflwyno. Gallai hyn arwain at ansicrwydd ynghylch yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil. Er gwaethaf hynny, rwy’n nodi y bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Biliau Diwygio ddydd Mercher, 13 Mawrth, fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 y pwyllgor hwnnw. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i fynd ati ar unwaith i ddechrau ar ei waith craffu ar y Bil.

Byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno ar yr amserlen arfaethedig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Dr Elizabeth Haywood
Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

22 Mawrth 2024

Annwyl Elizabeth

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): tystiolaeth ysgrifenedig

Cyfeiriwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ('y Bil') at y Pwyllgor Biliau Diwygio ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar ei egwyddorion cyffredinol. Rydym yn ysgrifennu i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol i lywio ein gwaith. Yn benodol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod.

Wrth ofyn y cwestiynau hyn, rydym yn cydnabod bod cyd-ddibyniaeth rhwng cynllun a chost y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) fel pecyn o ddiwygiadau. Fodd bynnag, ein rôl ni yw craffu ar bob Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn ôl eu rhinweddau, yn enwedig gan nad yw'r darpariaethau cychwyn yn y Bil yn nodi ym mha etholiad cyffredinol y Senedd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

1. Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi unrhyw gostau ychwanegol i Gomisiwn y Senedd (gan gynnwys mewn perthynas â chyflogau a lwfansau'r Aelodau). Pa ran y mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy mewn perthynas â chyflogau a lwfansau'r Aelodau sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn?

2. Pan wnaethoch chi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023, dywedoch chi y byddai'r Bwrdd yn trafod ei adolygiad thematig o gyflogau a chymorth personol yr Aelodau yn fuan. O ystyried y cynnydd yn nifer a chyfran y menywod sy'n cael eu hethol i'r Senedd mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni, pa asesiad y mae'r Bwrdd wedi'i wneud o lefel ac effeithiolrwydd y lwfans ariannol a'r pecyn cymorth presennol ar gyfer Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu ofalu?

3. Pa ystyriaeth a roddwyd i'r ffordd y gellid defnyddio unrhyw ysgogiadau o fewn cylch gwaith y Bwrdd i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n deillio o ffyrdd o weithio'r Senedd a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad neu gyfyngu ar hyd eu cyfnod yn y rôl?

4. Sut mae'r Bwrdd yn bwriadu ymgysylltu â'r Aelodau a rhanddeiliaid ar newidiadau posibl i'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd sydd â'r nod o gefnogi menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn 12 Ebrill 2024. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Y Llywydd

22 Mawrth 2024

Annwyl Lywydd

Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol): tystiolaeth ysgrifenedig

Fel y gwyddoch, cyfeiriwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ('y Bil') at y Pwyllgor Biliau Diwygio ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 ar ei egwyddorion cyffredinol. Rydym yn ysgrifennu i ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gennych yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes. Yn benodol, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cwestiynau isod.

Wrth ofyn y cwestiynau hyn, rydym yn cydnabod bod cyd-ddibyniaeth rhwng cynllun a chost y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) fel pecyn o ddiwygiadau. Fodd bynnag, ein rôl ni yw craffu ar bob Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol cysylltiedig yn ôl eu rhinweddau, yn enwedig gan nad yw'r darpariaethau cychwyn yn y Bil yn nodi ym mha etholiad cyffredinol y Senedd y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.

1. Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn yn nodi unrhyw gostau nac arbedion i Gomisiwn y Senedd. Pa ran y mae Comisiwn y Senedd wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy i'r Comisiwn yn gysylltiedig â'r Bil hwn?

2. Pa baratoadau y mae Comisiwn y Senedd yn eu gwneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Bil? Beth yw'r amcangyfrif o gost y gweithgaredd hwn?

3. Yng ngoleuni'r cynnydd tebygol yn nifer yr Aelodau o'r Senedd sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a babanod, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i wneud addasiadau i ystâd y



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd, megis darparu cyfleuster crèche ar y safle, neu gynyddu'r ddarpariaeth parcio hygyrch, ystafelloedd teulu, a chyfleusterau ar gyfer bwydo ar y fron a thynnu llaeth?

4. A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ffyrdd o weithio'r Senedd yn y dyfodol i fynd i'r afael â rhwystrau a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad, megis amserlennu busnes y Senedd, arferion gweithio hyblyg a datblygiadau technolegol arloesol?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn 12 Ebrill 2024. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd Pwyllgor Cyllid

16 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

**Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Mawrth 2024, lle gofynasoch imi gadarnhau a yw Comisiwn y Senedd wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar gostau posibl sy'n deillio yn sgil Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol).

Deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi nodi, o ystyried cwmpas y Bil a'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), nad oedd yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ymwneud â'r costau posibl sy'n deillio yn sgil y Bil hwn, i lywio ei Hasesiad Effaith Rheoleiddiol.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

15 Ebrill 2024

Annwyl David,

**Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2024, ac am y cyfle i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ("Bil SC(RhYE)"). Amgaeaf fy ymateb i'r cwestiynau a godwyd yn eich llythyr.

Fel y gwyddoch, fel Llywydd, gosodais fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Bil SC(RhYE) (fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.4) ar 11 Mawrth 2024. Yn unol â'r cais, dyma ysgrifennu atoch yn awr yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd, a Chadeirydd Pwyllgor Busnes y Senedd. Mae'r wybodaeth amgaeëdig, felly, yn cael ei darparu'n annibynnol ar fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol. Yn yr un modd, ni ddylai fy ymateb amgaeëdig ddylanwadu o gwbl ar y modd y caiff fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol ei ddehongli.

Cysylltwch ar bob cyfrif os gallaf fod o gymorth pellach i'r Pwyllgor yn ei drafodaethau

Yn gywir,

Elin Jones

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

## Ymateb i gwestiynau yn y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio: 22 Mawrth 2024

**Cwestiwn 1:** Rydym yn nodi nad yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil hwn yn nodi unrhyw gostau nac arbedion i Gomisiwn y Senedd. Pa ran y mae Comisiwn y Senedd wedi'i chwarae o ran datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A allwch chi gadarnhau na ragwelir unrhyw gostau neu arbedion mesuradwy neu anfesuradwy i'r Comisiwn yn gysylltiedig â'r Bil hwn?

**Ymateb:** Gallaf gadarnhau nad yw Comisiwn y Senedd wedi chwarae unrhyw ran yn y gwaith o ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil SC(RhYE). Darparodd y Comisiwn gostau o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Rwyf ar ddeall – o ystyried cwmpas Bil SC(RhYE) a'r wybodaeth a ddarparwyd – nad oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil SC(RhYE).

**Cwestiwn 2:** Pa baratoadau y mae Comisiwn y Senedd yn eu gwneud i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Bil? Beth yw'r amcangyfrif o gost y gweithgaredd hwn?

**Ymateb:** Mae cynllun cyfathrebu lefel uchel wedi'i ddatblygu, wrth ragweld pasio'r ddeddfwriaeth ddiwygio.

Bydd ymgyrch gyfathrebu Comisiwn y Senedd ar gyfer Diwygio'r Senedd yn mynd ati i gyflawni'r canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r Senedd;
- cynyddu dealltwriaeth o rôl y Senedd a'i Aelodau; ac
- annog cyfranogiad yn etholiad y Senedd.

Bydd hyn – i raddau helaeth – yn ategu amcanion Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd, sydd yn ei thrydedd flwyddyn ac sy'n anelu at gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Bydd hon yn parhau i fod yn gynulleidfa sy'n flaenoriaeth i Gomisiwn y Senedd ond oherwydd maint y newidiadau, bydd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu hefyd yn ymgorffori technegau i gyrraedd y rheini sy'n fwy tebygol o fod wedi ymgysylltu â'r Senedd, a sefydlu ei hun fel ffynhonnell wybodaeth y gellir ymddiried ynddi.

Wrth ystyried hyd a lled y newidiadau a'u pwysigrwydd, mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i archwilio cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid – megis Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol – i alinio cynlluniau cyfathrebu Comisiwn y Senedd, a sicrhau bod pob sefydliad yn cydweithio lle bynnag y bo modd. At hynny, mae'n sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, bod negeseuon dryslyd yn cael eu hosgoi, bod y defnydd gorau o arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu.

Mae Cynllun Ymgyrch Diwygio’r Senedd, Comisiwn y Senedd, wedi’i rannu’n gamau sy’n ymestyn o basio’r Bil i gyflwyno Senedd newydd, ddiwygiedig yn 2026.

### Cam Un – Rhannu Gwybodaeth (Haf 2024 – Gwanwyn 2025)

Bydd y cam hwn o’r ymgyrch yn canolbwyntio ymdrechion ar sicrhau bod pobl sy’n ymgysylltu â’r Senedd yn gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth glir a dealladwy am y newidiadau, a sut y bydd y newidiadau hynny’n effeithio arnynt.

Mae hyn yn cynnwys diweddariadau i wefan y Senedd, gwybodaeth wedi'i diweddaru ar y safle ar gyfer ymwelwyr â'r Senedd, sesiynau addysg wedi'u diweddaru a gwybodaeth yn sioeau haf Comisiwn y Senedd.

At hynny, bydd y cam hwn o’r ymgyrch hefyd cael ei ddefnyddio i nodi 25 mlynedd ers sefydlu’r Senedd, er mwyn tynnu sylw at gam nesaf ei thaith, gan gynnwys archwilio cyfleoedd gyda’r cyfryngau, a digwyddiadau yn y Senedd a gynhelir gan y Llywydd.

### Cam Dau – Annog Cyfranogiad (Gwanwyn 2025 – Mai 2026)

Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ymdrechion yn cael eu cynyddu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt, fel arfer, yn ymgysylltu â’r Senedd, yn ogystal â chynnal cysylltiadau â’r rheini sydd wedi gwneud o’r blaen.

Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio’r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb Comisiwn y Senedd ar Ddiwygio’r Senedd – gan gynnwys sioeau haf, allgymorth cymunedol, digwyddiadau a sesiynau addysg. Bydd hynny’n cael ei wneud gan ddefnyddio mewnwelediad cynulleidfa i lywio’r gweithgareddau’n unol ag anghenion y cynulleidfaoedd targed hynny.

Daw uchafbwynt y cyfnod hwn tuag at ei ddiwedd, pan fydd Comisiwn y Senedd yn lansio ei ymgyrch gwybodaeth etholiad. Mae syniadau cynnar ar gyfer yr ymgyrch hon yn cynnwys gweithio gyda chrewyr cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, ymgyrch hysbysebu digidol, allgymorth cymunedol – gyda ffocws ar gymunedau sydd wedi bod yn llai tebygol o ymgysylltu â’r Senedd yn flaenorol – a cham ymlaen o sesiynau addysg sy’n canolbwyntio ar y rheini sydd dros 16 oed.

Bydd Comisiwn y Senedd yn ymchwilio ymhellach i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol – fel y Comisiwn Etholiadol – yn ystod y cam hwn, i sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu, ac er mwyn cynyddu cyrhaeddiad. Gallai hyn gynnwys cydweithio ar adnoddau addysg a digwyddiadau, a rhannu gwybodaeth am ymgyrchoedd marchnata.

### Cam Tri – Cyflwyno Senedd Ddiwygiedig (Mai 2026 – Hydref 2026)

Bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o’r Senedd, a’r hyn y gall ei wneud i gefnogi pobl a’u cymunedau.

Gyda’r newid mwyaf yn debygol o fod o amgylch Aelodau a’u hetholaethau, bydd y cam hwn yn canolbwyntio’n enwedig ar gefnogi pobl i ddod o hyd i’w Haelodau, a’r hyn y gall eu Haelodau ei wneud i’w cefnogi. Bydd hon yn ymdrech â ffocws ar draws pob sianel, gan gynnwys hysbysebu digidol, cyfryngau lleol, ymgysylltu â'r gymuned, ac ymweliadau a theithiau.

Costau

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil SC(RhYE) yn cynnwys costau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â deddfwriaeth diwygio'r Senedd. Nid oes unrhyw gostau pellach wedi'u nodi ar gyfer y Bil SC(RhYE).

Cwestiwn 3: Yng ngoleuni'r cynnydd tebygol yn nifer yr Aelodau o'r Senedd sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant a babanod, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i wneud addasiadau i ystâd y Senedd, megis darparu cyfleuster crèche ar y safle, neu gynyddu'r ddarpariaeth parcio hygyrch, ystafelloedd teulu, a chyfleusterau ar gyfer bwydo ar y fron a thynnu llaeth?

Ymateb: Mewn ymateb i gynigion Diwygio'r Senedd, mae Prosiect Tŷ Hywel 26 wedi'i sefydlu o fewn rhaglen Ffyrdd o Weithio Comisiwn y Senedd. Cwmpas y prosiect hwn – sy'n nodi'r amserlenni heriol ar gyfer cyflawni erbyn dechrau 2026 – yw darparu lle swyddfa ychwanegol ar gyfer y cynnydd posibl yn nifer yr Aelodau a'u staff cymorth, gan hefyd ddarparu lle i staff Comisiwn y Senedd, a digon o le ar gyfer nifer gynyddol o Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru. Ceisir ymgynghori ag Aelodau ar eu hanghenion mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys sesiynau galw heibio yn y Cwrt, grwpiau cyfeirio Aelodau a gweithdai ar gyfer prosiectau Tŷ Hywel a'r Siambr. Fe fydd y prosiect Tŷ Hywel yn ystyried addasiadau priodol pe bai yna ddymuniad gan Aelodau i'r perwyl hynny.

O fewn y rhaglen Ffyrdd o Weithio, mae Comisiwn y Senedd hefyd wedi sefydlu prosiect Bae Caerdydd 2032. Bydd y gwaith hwn yn nodi ac yn cyflawni anghenion hirdymor y Senedd o ran ystâd a llety, gan gynnwys ystyried ystod eang o gyfleusterau sydd eu hangen i gefnogi'r Senedd a'i Haelodau, o fewn y paramedrau cyllido y cytunwyd arnynt gan y Senedd. Ar yr adeg briodol yn natblygiad y prosiect, bydd Comisiwn y Senedd yn ymgysylltu'n fanwl â grwpiau'r pleidiau i sicrhau bod anghenion yr Aelodau'n cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y cynlluniau ar gyfer unrhyw opsiwn llety arfaethedig yn y dyfodol.

Cwestiwn 4: A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ffyrdd o weithio'r Senedd yn y dyfodol i fynd i'r afael â rhwystrau a allai fel arall atal menywod a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag sefyll mewn etholiad, megis amserlennu busnes y Senedd, arferion gweithio hyblyg a datblygiadau technolegol arloesol?

Ymateb: Mewn perthynas ag unrhyw rwystrau a allai gael eu cyflwyno gan weithdrefnau'r Senedd, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar barodrwydd gweithdrefnol ar gyfer diwygio'r Senedd ym mis Tachwedd 2023 a chytunodd, mewn egwyddor, i ddechrau ystyried meysydd diwygio gweithdrefnol yn hydref 2024.

Mae'r ddeddfwriaeth ddiwygio – ar ei ffurf bresennol – yn cynnwys nifer o ddarpariaethau a fydd, os caiff ei phasio, yn golygu bod angen gwneud newidiadau i weithdrefnau'r Senedd, gan gynnwys diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a chanllawiau cysylltiedig.

Er bod paramedrau'r adolygiad hwn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, bydd angen i'r Pwyllgor Busnes gymryd y camu a ganlyn, o leiaf:

- Adolygu'r Rheolau Sefydlog a'r canllawiau cysylltiedig yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth Diwygio'r Senedd, unwaith y caiff ei phasio; a hefyd
- cynnig newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau gweithdrefnol i weithrediad y Seithfed Senedd.

Fel rhan o'r gwaith y mae'n ei wneud i gwmpasu'r adolygiad hwn, bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried, ymhlith pethau eraill, a ddylid cynnwys materion fel trefnu busnes yn wahanol a/neu ystyried effaith unrhyw newidiadau gweithdrefnol presennol, neu newidiadau gweithdrefnol posibl, ar allu'r Senedd i ddenu ystod mor eang ac amrywiol o Aelodau â phosibl.

At hynny, ym mis Mai 2022, gwnaeth y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd argymhelliad i'r Pwyllgor Busnes y dylai ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â dau Aelod yn rhannu swydd benodol (megis rôl Cadeirydd Pwyllgor), gan nodi effaith gadarnhaol bosibl hynny ar amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad fel rheswm dros archwilio'r maes hwn ymhellach. Mae'r mater wedi'i ychwanegu at flaenraglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes, a disgwylir iddo gael ei ystyried yn 2024.

Ers hynny, mae darpariaeth yn ymwneud ag adolygiad o drefniadau rhannu swyddi posibl (a dal swyddi dros dro) sy'n ymwneud â'r Senedd wedi'i chynnig yn y Bil SC(RhYE). Ym mis Ionawr 2024, argymhellodd y Pwyllgor Biliau Diwygio y dylid diwygio Bil SC(RhYE) i gael gwared ar y mecanwaith ar gyfer adolygu trefniadau rhannu swyddi posibl sy'n ymwneud â'r Senedd. At hynny, argymhellodd y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Senedd hon i archwilio materion sy'n ymwneud â rhannu swydd a dal swydd dros dro, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gorchwyl perthnasol i gynnal y gwaith. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes yr argymhelliad hwn, gan nodi y byddai'n ystyried y cais a wnaed pan fyddai sicrwydd ynghylch y newidiadau deddfwriaethol (rhagwelir mai yn ystod tymor yr haf 2024 y bydd hyn).

Yn y cyfamser, gan fod cadeiryddion pwyllgorau yn rolau anstatudol ac felly nad oes angen newidiadau deddfwriaethol i'w galluogi i rannu swyddi, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cynnal ystyriaeth gychwynnol o gynigion ar gyfer rhannu swydd cadeiryddion pwyllgorau. Roedd y gwaith cynnar hwn yn cynnwys ystyried gwybodaeth a gyflwynwyd i bwyllgorau'r Senedd, ac mewn mannau eraill yn ymwneud ag effaith rhannu swyddi ar hygyrchedd a hyblygrwydd rolau, ac amrywiaeth y rheini sy'n eu cyflogi. Bydd y Pwyllgor Busnes yn dychwelyd at y gwaith hwn i raddau manylach, yn ystod tymor yr haf 2024.

Dylid nodi bod trefniadaeth busnes y Senedd a'r amserlen fel arfer yn faterion i'r Pwyllgor Busnes a'r Senedd benderfynu arnynt ar ddechrau ei thymor. Ym mis Gorffennaf 2022, cytunodd y Senedd ar nifer o newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a oedd wedi'u cynnig gan y Pwyllgor Busnes yn dilyn adolygiad o Reol Sefydlog 34 dros dro, a chyfranogiad Aelodau o bell yn nhrafodion y Senedd, y naill a'r llall wedi'u cyflwyno mewn ymateb i bandemig Covid-19. Ar ôl ymgynghori ag Aelodau, grwpiau'r pleidiau ac eraill, cynigiodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y gallu i Aelodau gymryd rhan o bell yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor. Ar ôl i'r Senedd gytuno ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, cyhoeddwyd canllawiau ar drafodion rhithwir a hybrid o dan Reol Sefydlog 6.17. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi nodi y bydd hyn yn cael ei adolygu'n barhaus yng ngoleuni profiad yn ystod y Chweched Senedd.

O ran arloesiadau technolegol, mae Comisiwn y Senedd yn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau sy'n helpu i gael gwared ar y rhwystrau i gyfranogiad ym musnes y Senedd, a allai fel arall atal unigolion neu grwpiau rhag sefyll etholiad.

Mae mesurau seiberddiogelwch cadarn wedi galluogi Comisiwn y Senedd i ddarparu offer TGCh sy'n galluogi cyfathrebu a chydweithio diogel a di-dor o unrhyw leoliad â chysylltiad i'r rhyngrwyd. Mae fideo-gynadledda, negeseuon gwib, a llwyfannau cydweithio rhithwir megis Microsoft Teams a Zoom yn hwyluso rhyngweithiadau amser real, gan ganiatáu i Aelodau weithio o wahanol leoliadau. Mae hyn yn ymestyn i drafodion seneddol ffurfiol fel Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor, gan ganiatáu i Aelodau gymryd rhan yn llawn o bell, gan gynnwys pleidleisio.

Mewn ymateb i gynigion Diwygio'r Senedd, mae Prosiect Siambr 2026 wedi'i sefydlu o fewn y Rhaglen Ffyrdd o Weithio. Bydd y prosiect hwn yn darparu siambr estynedig, a fydd yn gallu cynnwys 96 o Aelodau. Yn ganolog i'r prosiect hwn mae gwelliannau i'r technolegau sy'n sail i'r Cyfarfodydd Llawn, a'r angen i sicrhau bod unrhyw newid yn ystyried anghenion pawb a allai fod yn dymuno sefyll etholiad i'r Senedd. Bydd asesiadau effaith cydraddoldeb llawn yn cael eu cwblhau ar gyfer y ddau brosiect wrth iddynt wneud cynnydd.

Fel llawer o sefydliadau, mae Comisiwn y Senedd yn ceisio harneisio manteision AI cynhyrchiol. Rhagwelir y bydd Aelodau'r Senedd yn gallu harneisio'r gwelliannau awtomeiddio ac effeithlonrwydd y gall y technolegau hyn eu cyflawni, gan ddileu llawer o dasgau beichus, arferol a rhyddhau amser Aelodau.

Bydd yr holl dechnolegau hyn yn buddio o welliannau yn y dyfodol, a byddant yn parhau i addasu i ganiatáu i Aelodau ymgymryd â'u rôl mewn ffordd sy'n gweddu i'w hanghenion penodol, ac i anghenion eu hetholwyr.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Ombwdsmon Ombudsman**
**Cymru · Wales**

Eich cyf:
Ein cyf: MAM/mm
Dyddiad: 15 Ebrill 2024

Gofynnwch am: Michelle Morris
[redacted]
[redacted]

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

**Trwy e-bost yn unig**
SeneddCyllid@senedd.cymru

Annwyl Peredur

Ysgrifennaf i friffio'r Pwyllgor Cyllid yn dilyn digwyddiadau diweddar ynghylch y postiadau cyfryngau cymdeithasol a wnaed gan Arweinydd Tîm yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Nid oes amheuaeth bod y digwyddiadau hyn wedi niweidio enw da'r sefydliad a'u bod wedi bwrw amheuaeth, yn annheg, ar annibyniaeth, didueddrwydd ac uniondeb pawb sy'n gweithio i OGCC. Mae'r sefyllfa y mae'r sefydliad yn ei hwynebu wedi rhoi ysgytwad i'r staff ac yn parhau i achosi pryder mawr.

Bwriad y llythyr hwn yw rhoi gwybodaeth am y digwyddiadau diweddar a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddechrau'r broses o ailadeiladu ymddiriedaeth yn ein gwaith. Dechreuodd digwyddiadau pan gefais lythyr yn manylu ar honiadau bod arweinydd tîm wedi postio sylwadau gwleidyddol ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd y postiadau hyn yn cwestiynu ei didueddrwydd. Yn dilyn hynny, ataliwyd yr arweinydd tîm o'i gwaith ac, yr wythnos ganlynol, ymddiswyddodd ac nid yw bellach yn cael ei chyflogi gan OGCC. Yn unol â'n contract cyflogaeth, bydd yn derbyn tâl yn gyfnewid am y cyfnod rhybudd cytundebol. Ni chaiff unrhyw daliad diswyddo ar ben taliadau cytundebol ei wneud.

Rheolodd yr arweinydd tîm y tîm Cod Ymddygiad Cynghorwyr o fis Chwefror 2019 tan fis Awst 2023, pan gynhaliwyd cylchdro o arweinwyr tîm a symudodd o'r tîm. O fis Ebrill 2021 ymlaen, roedd y tîm hwn yn gyfrifol am asesu cwynion yn erbyn cynghorwyr a gwneud penderfyniadau ynghylch pa gwynion na ddylid ymchwilio iddynt. Cyn y dyddiad hwn, tîm gwahanol oedd yn gwneud yr asesiadau hyn na chafodd ei reoli gan yr arweinydd tîm dan sylw.

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Yn wyneb y niwed sydd wedi'i wneud i enw da'r sefydliad, rwy'n ymwybodol bod angen cynnal adolygiad allanol i roi sicrwydd na fu unrhyw ragfarn wrth wneud penderfyniadau a'n bod yn parhau i gyflawni gwasanaeth annibynnol, teg a diduedd.

Bydd yr adolygiad yn ystyried ein prosesau ar gyfer ymdrin â chwynion cod ymddygiad a'r achosion hynny a gafodd eu holi gan ddigwyddiadau diweddar. Yn benodol, bydd yn ystyried penderfyniadau i beidio ag ymchwilio, a wneir gan arweinydd y tîm a'r Tîm Cod Ymddygiad. Mae penderfyniadau a wneir ar y cam hwnnw yn dilyn defnydd prawf dau gam: yn gyntaf, a yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod torri'r Cod Ymddygiad wedi digwydd ac, yn ail, a oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd.

Fy rôl i, fel Ombwdsmon, yw ymchwilio a phenderfynu a ddylid cyfeirio'r achos at y Pwyllgor Safonau perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru i'w ystyried, ai peidio. Nid oes gennyf unrhyw rôl o ran dod i gasgliad ynghylch a fu achos o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, nac wrth benderfynu ar unrhyw sancsiwn. Mae unrhyw gwynion a gyfeirir at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ddarostyngedig i wrandawiad annibynnol, lle caiff yr ymchwiliad ei herio a'i graffu, a gellir galw ar dystion. Mae'r gwrandawiadau hyn yna yn dod i'w penderfyniad yn annibynnol a gall y cynghorydd apelio yn erbyn y penderfyniadau hynny. Am y rhesymau hyn ni ellir ailagor yr achosion hyn ac ni fyddant yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad.

Er nad oes tystiolaeth bod arweinydd y tîm wedi mynegi ei barn bersonol nac wedi dylanwadu ar eraill yn y swyddfa, rydym yn cydnabod bod angen i unrhyw adolygiad roi sicrwydd ar y pwynt hwn hefyd.

Rwyf yn cydnabod ei bod yn hanfodol bod gan yr adolygiad hwn hyder y Senedd a rhanddeiliaid ar draws llywodraeth leol. Er fy mod yn parhau'n hyderus y byddai James Goudie KC wedi cynnal yr adolygiad gydag uniondeb, didueddrwydd a phroffesiynoldeb, mae'n amlwg bod pryderon wedi cael eu mynegi gan sawl person ac y byddai'n arwain at ddiffyg hyder yn yr adolygiad a'i ganfyddiadau. Rwyf wedi gwrando ar y safbwyntiau hyn ac wedi ailystyried y penodiad hwn a byddaf nawr yn chwilio am berson arall i arwain y gwaith hwn yn lle.

Nid wyf yn diystyru'r difrod y mae'r postiadau cyfryngau cymdeithasol hyn a'r digwyddiadau dilynol wedi'u gwneud. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i weithio â'm staff a'n rhanddeiliaid ar draws llywodraeth leol i ailadeiladu ymddiriedaeth yn ein gwaith. Rwy'n cydnabod ei bod yn bwysicach nag erioed yn awr fod y Senedd, drwy waith y Pwyllgor Cyllid, yn dwyn i gyfrif rôl yr Ombwdsmon, a fy swyddfa, a byddaf ar gael i'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i fynychu'r Pwyllgor i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad pellach

y gallai'r Pwyllgor ofyn amdani, gan gynnwys adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol.

Yn gywir



**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon